

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: TREFNIADAU I HYRWYDDO CYFLE CYFARTAL 2000-2001

Cynnwys

RHAGAIR Y CADEIRYDD

Rhagair y Cadeirydd.....	2
Y blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn nesaf.....	4

ATODIAD A: ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD PARHAOL AR HYRWYDDO CYDRADDOLDEB YN Y CYNULLIAD – 2000-2001

5

1. Cyflwyniad.....	5
2. Crynodeb.....	5
3. Llwyddiannau / Datblygiadau.....	6
4. Penodiadau Cyhoeddus.....	7
5. Y Berthynas â ‘Gwell Cymru’ a ‘Rhoi Llywodraeth Well ar Waith’	8
6. Casgliad.....	10
Atodiad A1: Rôl a Swyddogaethau'r Uned Polisi Cydraddoldeb.....	12
Atodiad A2: Cynlluniau Cydraddoldeb yr Is-adrannau	17
Atodiad A3: Proffil Aeddfedrwydd yr Archwiliad Cydraddoldeb.....	32

ATODIAD B: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

34

Sefydlu'r Pwyllgor.....	34
Crynodeb o'i weithgareddau yn ystod y flwyddyn a aeth heibio	34
Cyrff cyhoeddus sy'n gweithio ym maes hyrwyddo cyfle cyfartal.....	37
Rhagolwg	38
ATODIAD B1: Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal – Y Cylch Gwaith	40
Atodiad B2: Aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal.....	42

RHAGAIR Y CADEIRYDD

Un o brif nodweddion y weledigaeth o ddatganoli grym i Gymru oedd y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Adlewyrchir hyn yn Neddf Llywodraeth Cymru sy'n mynnu bod y Cynulliad yn arfer ei swyddogaethau ac yn gwneud ei waith "gan roi sylw priodol i egwyddor rhoi cyfle cyfartal i bawb". I'r perwyl hwn, mae'r Rheolau Sefydlog yn datgan y dylai'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal archwilio ymdrechion y Cynulliad i gyrraedd y nod hwn. Mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol hon, dan oruchwyliaeth un o Bwyllgorau Sefydlog y Cynulliad, wedi hoelio sylw'r Cynulliad fwyfwy ar yr angen i hyrwyddo cydraddoldeb. Mae'r Cabinet, gyda chefnogaeth pob plaid wleidyddol ac uwch reolwyr y Cynulliad, wedi ymrwmo i sicrhau bod cyfle cyfartal yn cael ei hyrwyddo yng Nghymru. Fodd bynnag, gan mor anferth yw'r orchwyl sydd o'n blaenau, megis dechrau mae'r gwaith o sicrhau cyfle cyfartal i bawb, yn y Cynulliad ac yn y gymuned ehangach.

Rwy'n falch o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn a aeth heibio i hyrwyddo cyfle cyfartal yn y system benodiadau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd yn arwain at fwy o amrywiaeth yn y penodiadau ac y sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cynrychioli bob sector o'r gymuned yn fwy effeithiol. Bydd yr adolygiad presennol o dâl cadeiryddion ac aelodau cyrff cyhoeddus yn helpu i sicrhau bod pobl alluog o bob rhan o'r gymuned yn cael eu denu i'r swyddi pwysig hyn. Bydd hefyd yn sicrhau bod taliadau'n deg ac yn rhesymol.

Maes arall a gafodd gryn dipyn o sylw gan y Pwyllgor oedd ymateb y Cynulliad i argymhellion yr Ymchwiliad i Lofruddiaeth Stephen Lawrence (adroddiad MacPherson) ym maes addysg. Mae gan fyd addysg rôl ganolog wrth fowldio agweddau a chodi ymwybyddiaeth pobl ifanc, ac os ydym am sicrhau cyfle cyfartal i bawb rhaid sicrhau bod ein hysgolion yn sefydliadau sy'n meithrin amrywiaeth ac yn dathlu cyfoeth diwylliannau'r byd. Mae'r potensial i hyrwyddo cyfle cyfartal drwy bolisi caffael y Cynulliad hefyd yn galonddid i'r Pwyllgor. Mae rhwymedigaeth statudol y Cynulliad yn caniatáu iddo ystyried materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb wrth brynu nwyddau a gwasanaethau ac rydym yn edrych ar sut y gallwn wneud hynny yn y dull mwyaf effeithiol.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, mae'r Pwyllgor yn bwriadu canolbwyntio ar weithredu argymhellion adroddiad Roger McKenzie, "Codi Pob Llais", sicrhau bod y Cynulliad yn ysgwyddo'i gyfrifoldebau yn unol â Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 ac ymateb i "Just Pay" sef adroddiad y Tasglu Cyflogau Cyfartal. Mae'r adroddiad hwn wedi dangos fod cyflogau dynion a menywod yn dal yn anghyfartal yng Nghymru. Os yw'r Cynulliad am ddatrys y broblem hon, y cam cyntaf yw edrych ar anghyfartalrwydd cyflog ymysg ei staff ei hun ac unioni'r cam. Unwaith y bydd trefn ar bethau o fewn y sefydliad, gall y Cynulliad fynd ati o ddifrif i oresgyn y maen tramgwydd traddodiadol hwn i gydraddoldeb. Bydd y Pwyllgor hefyd yn edrych ar yr hyn y gall ei wneud i roi stop ar yr arfer o gadw ceiswyr lloches yng ngharchar Caerdydd.

Er bod cryn dipyn ar ôl i'w wneud, mae'r adroddiad hwn yn dangos ein bod yn dechrau mynd â'r maen i'r wal. Mae'r gwaith wedi'i hwyluso gan agwedd amhleidiol aelodau'r Pwyllgor. Rwyf wedi mwynhau gweithio gyda phwyllgor sy'n canolbwyntio ar newid pethau er gwell yn y Cynulliad yn hytrach na sgorio pwyntiau dros eu pleidiau, a hoffwn ddiolch i'r holl aelodau am eu cymorth drwy gydol y flwyddyn. Rwyf hefyd yn ddiolchgar

i'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a Chomisiwn Hawliau'r Anabl. Mae eu cyngor arbenigol hwy wedi bod yn hynod werthfawr i'r Pwyllgor. Hoffwn ddiolch hefyd i'r lluo o bobl sydd wedi dod i siarad â'r Pwyllgor ac wedi rhannu eu profiadau a'u syniadau, ac i Swyddogion y Cynulliad am hwyluso gwaith y Pwyllgor. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Roger McKenzie am ei waith ar yr adroddiad 'Codi Pob Llais'. Bydd yr adroddiad yn cael effaith bendant ar y modd y byddwn yn mynd i'r afael nid yn unig â hiliaeth sefydliadol ond â phob math arall o anghydraddoldeb yn y Cynulliad.

Edwina Hart AM MBE
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
Mehefin 2001

ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN AR DREFNIADAU'R CYNULLIAD I HYRWYDDO CYDRADDOLDEB

Hwn yw'r ail adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ei baratoi dan Reol Sefydlog 14.2. Mae'n ymdrin â threfniadau'r Cynulliad i hyrwyddo cyfle cyfartal, a pha mor effeithiol yw'r trefniadau hynny. Mae trwch yr adroddiad i'w gael mewn dau atodiad; Atodiad A, sef adroddiad gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar hyrwyddo cyfle cyfartal ac Atodiad B, sef adroddiad y Pwyllgor ar ei waith yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Mae'r Pwyllgor yn falch fod pethau'n symud yn eu blaenau. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymrwymiad cryf yr uwch reolwyr, datblygiad trefn ymgynghori â chyrrff cynrychioladol wrth lunio polisi a'r flaenoriaeth a roddir i gydraddoldeb yng nghynlluniau Gwell Cymru a Rhoi Llywodraeth Well ar Waith. Yn ogystal â hyn, aethpwyd ati i dargedu nifer o'r meini tramgwydd i gydraddoldeb, er enghraifft gwella'r broses benodiadau cyhoeddus, mynd i'r afael ag argymhellion adroddiad yr Ymchwiliad i Lofruddiaeth Stephen Lawrence a'r adroddiad 'Codi Pob Llais' sy'n ymdrin â hiliaeth sefydliadol yn y Cynulliad.

Mae'r proffil aeddfedrwydd yn Atodiad A3 yn dangos fod y Cynulliad yn llwyddo i sefydlu dulliau a gweithdrefnau i hyrwyddo cydraddoldeb ond nad yw, ar hyn o bryd, yn cyrraedd y nod o weithredu mewn modd sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Mae'n bwysig fod y cynlluniau sydd wedi eu datblygu eisoes yn cael eu gweithredu'n effeithiol a bod meini tramgwydd eraill i gydraddoldeb yn cael eu nodi a'u goresgyn. Yna gall y Cynulliad symud tuag at y model rhagoriaeth sy'n uchelgais i'r sefydliad ac yn ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Cymru.

Y blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn nesaf

Bydd gweithredu 'Codi Pob Llais' yn parhau'n brosiect pwysig yn ystod y blynyddoedd nesaf gan y bydd yn sicrhau nad yw polisiâu mewnol y Cynulliad yn cyfyngu ar gyfleoedd i bobl dduon, lleiafrifoedd ethnig a grwpiau eraill na chynrychiolir mohonynt yn ddigonol. Bydd ymateb y Cynulliad i'w gyfrifoldebau newydd dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 hefyd yn amlygu'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau cydraddoldeb i bawb.

Mae 'Just Pay', adroddiad y Tasglu Cyflogau Cyfartal, yn dangos bod anghyfartalrwydd cyflog yn dal yn broblem. Mae hyn y rhan holl bwysig o sicrhau cydraddoldeb i fenywod ac mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen i'r Cynulliad ddangos arweiniad drwy fynd i'r afael ag anghyfartalrwydd yng nghyflogau ei staff ei hun a'r cyrrff cyhoeddus a noddir ganddo.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu ymdrechion y Cynulliad i hyrwyddo cydraddoldeb yn y broses o benodi a thalu aelodau cyrrff cyhoeddus a'r penderfyniad i ystyried materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn ei bolisiâu caffael.

ATODIAD A: ADRODDIAD YR YSGRIFENNYDD PARHAOL AR HYRWYDDO CYDRADDOLDEB YN Y CYNULLIAD – 2000-2001

1. Cyflwyniad.....	5
2. Crynodeb	5
3. Llwyddiannau / Datblygiadau.....	6
4. Penodiadau Cyhoeddus	7
5. Y Berthynas â ‘Gwell Cymru’ a ‘Rhoi Llywodraeth Well ar Waith’	8
6. Casgliad	10
Atodiad A1: Rôl a Swyddogaethau'r Uned Polisi Cydraddoldeb.....	12
Atodiad A2: Cynlluniau Cydraddoldeb yr Is-adrannau.....	17
Atodiad A3: Proffil Aeddfedrwydd yr Archwiliad Cydraddoldeb.....	32

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi braslun o'r gwaith a wnaed ym maes cydraddoldeb yn y Cynulliad ers ysgrifennu adroddiad diwethaf y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ym mis Gorffennaf 2000.

Rwyf yn benderfynol o sicrhau bod y Cynulliad yn gosod esiampl i sefydliadau eraill o'r arferion gorau ar gyfer sicrhau bod cyfle cyfartal yn rhan annatod o'i weithdrefnau a'i waith bob dydd. Mae dyletswydd statudol arnom i wneud hyn dan Ddeddf Llywodraeth Cymru; ond mae gennym gyfrifoldeb ehangach fel sefydliad i sicrhau bod y staff a benodir i weithio yn y Cynulliad yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru. Mae'r Cynulliad yn gyflogwr pwysig ac mae'i waith yn cael effaith ar bawb yng Nghymru. Byddai Cynulliad sy'n cyflogi pobl o bob rhan o'n cymunedau yn barotach ac yn fwy abl i ymateb i anghenion ein cymunedau. Mae sefydliad sy'n amrywiol ei natur yn gallu ymateb yn well i newidiadau. Mae'n fwy deinamig a pharod ei ymateb gan fod y staff yn medru edrych ar bethau o nifer o safbwyntiau gwahanol.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos ein bod wedi symud yn ein blaenau. Rwy'n cydnabod fod cryn dipyn o waith ar ôl i'w wneud, ond cymerwyd camau pwysig ymlaen eleni.

2. Crynodeb

Mae'r ail archwiliad i gydraddoldeb yn cynnig tystiolaeth gref ein bod yn llwyddo i roi'r flaenoriaeth briodol i gydraddoldeb ac i godi ymwybyddiaeth o'r hyn fydd angen ei wneud er mwyn cwblhau'r broses honno.

Mae ymrwymiad y Cynulliad i ymgynghori â gwahanol fudiadau a chyrrff sy'n gweithio ym maes cydraddoldeb wedi dechrau dwyn ffrwyth. Mae mecanwaith ymgynghori yn ei le ar gyfer grwpiau sy'n gweithio ym maes hil, rhyw ac anabledd ac rydym wrthi'n datblygu trefn debyg ar gyfer grwpiau sy'n cynrychioli lesbiaid, hoywon a'r deurywiol. Rwyf wedi sefydlu Fforymau gyda chynrychiolwyr y grwpiau hyn a chaiff eu syniadau hwy eu bwydo i mewn i waith y Cynulliad.

Mae'r archwiliad i gydraddoldeb yn ddatblygiad o Arolwg a wnaed y llynedd i bennu llinell sylfaen, sy'n dangos fod y Cynulliad yn medru monitro a mesur hyd a lled ei waith ym maes cydraddoldeb. Mae'r Uned Polisi Cydraddoldeb wedi cydweithio â'r is-adrannau unigol gan adolygu eu hymdrechion a'u helpu i ddatblygu cynlluniau gweithredu ym maes cydraddoldeb. Bydd y cynlluniau hyn yn defnyddio pum maen prawf yr Arolwg gwreiddiol, sef amcanion busnes; ymrwymiad ar y lefel uchaf; monitro; hyfforddiant; ac ymgynghori.

Mae'r archwiliad, sy'n edrych ar bob agwedd o waith y Cynulliad, yn nodi gwelliannau yn yr ymwybyddiaeth o'r angen i ystyried cydraddoldeb wrth sefydlu unrhyw fentrau newydd a'r angen i roi rôl i'r mudiadau a chyrrff statudol a gwirfoddol sy'n gweithio ym maes cydraddoldeb.

3. Llwyddiannau / Datblygiadau

Ers cyhoeddi'r Adroddiad ym mis Gorffennaf 2000, gwnaed cryn dipyn o waith i wella arferion cyflogi'r Cynulliad a'r modd y mae'n gweithredu polisïau. Dangosodd ail rownd yr archwiliad cydraddoldeb ein bod, ers y llynedd, wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth gyffredinol o gydraddoldeb; wedi codi ymwybyddiaeth gyffredinol o ymrwymiad y lefel uchaf, yn weinidogion a rheolwyr; bod nifer cynyddol o enghreifftiau o arferion da; bod y gred fod angen cydweithio o ddifrif â mudiadau cydraddoldeb yn y sectorau statudol a gwirfoddol yn ennill ei phlwyf; ac, er mai ychydig o sesiynau hyfforddi sydd wedi eu cynnal ym maes cydraddoldeb, mae ymwybyddiaeth gynyddol o'r angen i drefnu mwy. Mae tystiolaeth o'r cynnydd a fu i'w chael yn y proffil aeddfedrwydd ar gyfer 2000-2001 (sy'n deillio o ganfyddiadau'r archwiliad) sydd yn Atodiad 3, ynghyd â phroffil 1999-2000 er mwyn eich galluogi i gymharu'r ddau. Lluniwyd y proffil wedi cynnal cyfres o gyfweiliadau gyda phenaethiaid holl is-adrannau'r Cynulliad. Gofynnwyd yr un cwestiynau i bawb a gofynnwyd am dystiolaeth i gyfiawnhau eu hatebion. Defnyddiwyd tystiolaeth y cyfweiliadau hyn (a gynhaliwyd rhwng Hydref 2000 ac Ebrill 2001) i lunio proffil aeddfedrwydd ar gyfer pob is-adran. Rhoddwyd sylw penodol i:

- Amcanion Busnes – mae'r ffaith mai ychydig o newid a fu yn y maes hwn yn dangos, er enghraifft, bod diffyg cyfeiriadau penodol at gydraddoldeb yng nghynlluniau'r is-adrannau a'r grwpiau yn broblem o hyd (mae'r rhan fwyaf yn cynnwys cyfeiriadau ac ymrwymadau cyffredinol), er bod mwy o ystyriaeth yn cael ei rhoi i gydraddoldeb mewn cyfarfodydd rheoli.
- Ymrwymiad ar y Lefel Uchaf – mae'r gwelliannau yn y maes hwn yn adlewyrchu ymdrechion yr uwch reolwyr, er enghraifft cynnwys cydraddoldeb ar agendâu cyfarfodydd a chydweithio â mudiadau cydraddoldeb. Mae'r cyfarfodydd 'Bord Gron' chwarterol yr wyf yn eu cynnal â chynrychiolwyr blaenllaw'r lleiafrifoedd du ac ethnig yn enghraifft o hyn.
- Monitro ac Addasu – bu gwelliannau yn y meysydd hyn gan fod mwy o ymwybyddiaeth o'r angen i fonitro a bod mwy o werthusiadau'n cael eu cynnal. Er hynny, mae cryn dipyn o waith ar ôl i'w wneud a bydd angen datblygu trefn mwy systematig.
- Cyfarwyddyd a Hyfforddiant – ychydig iawn o welliant a fu yn y maes hwn, yn bennaf oherwydd y llusgo traed a fu yn darparu mecanwaith i godi ymwybyddiaeth o gyfle cyfartal yn yr is-adrannau. Bydd hyn yn un o'n blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn nesaf.
- Ymgynghori a Chyfathrebu – mae'r gwelliant sylweddol a fu yn y maes hwn yn adlewyrchu'r ymwybyddiaeth gynyddol o'r angen i ymgynghori â mudiadau sy'n gweithio ym maes

cydraddoldeb i sbarduno gweithredu ystyrllon ac ymarferol. Cymerwyd camau ymarferol i roi llais i'r mudiadau hyn.

Yr Uned Polisi Cydraddoldeb

Mae'r Uned wedi parhau i roi cyngor a chymorth i holl adrannau'r Cynulliad mewn ystod eang o feysydd, gan gynnwys drafftio Polisi Cydraddoldeb newydd, Strategaeth ar Amrywiaeth a Strategaeth Hyfforddi / Codi Ymwybyddiaeth. Mae'r Polisi Cydraddoldeb a'r Strategaeth ar Amrywiaeth yn dal ar ffurf drafft a chânt eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn ddiweddarach eleni. Mae'r Uned hefyd wedi rhoi arweiniad o ran codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Hawliau Dynol; yn hwyluso a chydlynu ymateb y Cynulliad i Ddeddf Mewnffudo a Lloches 1999 a'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000. Yn ogystal â hyn, fel rhan o'u gwaith yn y gymuned, mae'r Uned wedi parhau i ddatblygu ei pherthynas â grwpiau cymunedol ledled Cymru, a chyda chyrrff statudol a gwirfoddol sy'n gweithio ym maes cydraddoldeb.

Erbyn hyn, mae'r Uned yn fwy effeithiol gan fod mwy o staff yn gweithio yno. Mae nifer wedi ymuno ar secondiad ac wedi dod â chryn brofiad ac arbenigedd i'r Uned. Mae'r gwaith i hyrwyddo cydraddoldeb a'i roi yn y brif ffrwd yn parhau ac mae'r ymwybyddiaeth gyffredinol o bwysigrwydd cydraddoldeb wrth lunio polisi a threfnu gwaith yn cynyddu. Ceir mwy o fanylion am waith yr Uned yn Atodiad 1.

Fel rhan o ymrwymiad y Cynulliad i wella'i waith yn y gymuned, rhoddwyd cyllid i Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA), Anabledd Cymru a Chynghrair Cenedlaethol Menywod Cymru (WWNC) i'w cynorthwyo i ddatblygu eu perthynas â'r Cynulliad. Mae camau'n cael eu cymryd i sefydlu cronfa debyg ar gyfer cymunedau lesbaidd, hoyw a deurywiol.

Fel rhan o'n trafodaethau 'Bord Gron', rwyf i a chynrychiolwyr blaenllaw'r lleiafrifoedd du ac ethnig yn datblygu secondiad ar lefel uchel yn y Cynulliad, ynghyd â chyfleon i gysgodi staff a chael profiad gwaith yn y Cynulliad. Y bwriad yw cael gwared unwaith ac am byth ar yr ymdeimlad bod unigolion o'r cymunedau hynny'n wynebu rhwystrau wrth geisio am swyddi yn y Cynulliad.

Is-adrannau'r Cynulliad

Mae'r is-adrannau hefyd yn cymryd camau positif ac ymarferol, gan dderbyn pwysigrwydd cydraddoldeb yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae gwaith yr Uned wedi agor llygaid yr is-adrannau i'r angen i godi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd ystyried cydraddoldeb wrth ddatblygu polisi ac wrth ddarparu gwasanaethau. Y farn gyffredinol oedd bod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth a bod angen hyfforddiant cydraddoldeb sy'n berthnasol i swyddi penodol. Bydd y strategaeth hyfforddi newydd y byddaf yn ei lansio yn yr hydref 2001 yn mynd i'r afael â hyn. Er bod mwy o ymgynghori'n digwydd rhwng is-adrannau a chyrrff gwirfoddol a statudol, mae rhai is-adrannau'n gwneud mwy na'i gilydd. Mae mwy o fanylion am waith yr is-adrannau yn Atodiad 2.

4. Penodiadau Cyhoeddus

Rhoddwyd nifer o fentrau ar waith yn y maes hwn i ategu ymdrechion y Pwyllgor i ddenu trawsdoriad ehangach o bobl i geisio am swyddi ar gyrff cyhoeddus:

a. Aseswyr Annibynnol – Cytunodd Gweinidogion bod angen dilyn trefn ffurfiol wrth benodi aseswyr a fyddai'n hollol annibynnol ac wedi eu hyfforddi ym maes cydraddoldeb. Penodir yr aseswyr hyn yn ddiweddarach eleni.

b. Mae'r Uned Polisi Cydraddoldeb wedi sicrhau bod y broses benodi'n pasio prawf tegwch, ac maent yn pwysu a mesur manylebau person a hysbysebion swyddi cyn y cânt eu cyhoeddi. Anfonir yr hysbysebion at dros gant o grwpiau sy'n cynrychioli menywod, lleiafrifoedd du ac ethnig a'r anabl.

5. Y Berthynas â 'Gwell Cymru' a 'Rhoi Llywodraeth Well ar Waith'

a. Gwell Cymru

Mae'r uchelgais o greu diwylliant sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac sy'n rhoi cyfle cyfartal i bawb yn un o dair prif thema GwellCymru.com. Mae'r ddogfen strategol yn cynnig gweledigaeth tymor hir o Gymru well: cymdeithas oddefgar sy'n diwallu anghenion yr holl grwpiau cymdeithasol ac sy'n rhoi'r un cyfle i bawb gyfrannu. Mae nifer o bolisiau a chynlluniau'n cael eu cyflwyno yn y Cynulliad er mwyn gwireddu'r amcanion hyn. Ymysg y cynlluniau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ddogfen ac a fydd yn helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal mae:

- Cynnal Ffeiriau Recriwtio'r Cynulliad Cenedlaethol fydd yn targedu lleiafrifoedd du ac ethnig. Yn ystod yr ymgyrch recriwtio ddiwethaf, cynyddodd y canran o ymgeiswyr o'r lleiafrifoedd du ac ethnig i 4.6% (gallai'r canran fod yn gymaint â 7% pe cynhwysid pob un o'r rheini a ddewisodd beidio â nodi eu cefndir ethnig) ac o'r rheini penderfynwyd bod 2.2% yn addas i'w penodi (3.7% pe cynhwysid pob un o'r rheini a ddewisodd beidio â nodi eu cefndir ethnig).
- Rhoi cymorth ariannol i Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan er mwyn ei galluogi i ymgynghori â'r Cynulliad. Cytunwyd ar raglen gyllido dros dair blynedd i ddatblygu'r Gymdeithas er mwyn i'r Cynulliad allu ymgynghori'n fwy effeithiol â chymunedau lleiafrifol. Hefyd, rhoddwyd cyllid dros dair blynedd i Gynghrair Cenedlaethol Menywod Cymru, Anabledd Cymru a fforwm newydd fydd yn gwneud yr un math o waith ar ran lesbiaid, hoywon a'r deurywiol.
- Rwy'n cadeirio cyfarfodydd chwarterol rhwng uwch swyddogion a chynrychiolwyr blaenllaw'r lleiafrifoedd du ac ethnig.
- Y Cytundeb Partneriaeth ar Hiliaeth Sefydliadol a arwyddwyd ar y cyd ag Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol. Cyhoeddwyd yr Adroddiad 'Codi Pob Llais' ac y mae gweithgor wrthi'n rhoi'r argymhellion ar waith. Bydd y gweithgor yn adrodd yn ôl i mi ym mis Mehefin 2001.
- Annog cynnwys camau ymarferol i hyrwyddo cydraddoldeb yng Nghynlluniau'r Is-adrannau. Cafwyd cryn lwyddiant yn y maes hwn fel y dengys y llu o fentrau isadrannol a restrir yn *Atodiad 2*.
- Strategaeth Gofal Plant fydd yn cynnig gofal a chyfleoedd datblygu i blant. Bydd hyn yn galluogi cynhalwyr y plant hynny i ddychwelyd i'r gwaith os dymunant wneud hynny. Mae'r Cynulliad wedi rhoi dros £3.05 miliwn o gymorth i'r Strategaeth Gofal Plant ac i

Bartneriaethau Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Sefydlwyd Tasglu'r Strategaeth Gofal Plant a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Chwefror 2001. Wedi hynny, sefydlwyd is-grwpiau i ystyried pum maes allweddol: gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd; recriwtio a hyfforddi; gofal plant sy'n ateb gofynion plant, teuluoedd a chymunedau; gwybodaeth a chyfleusterau cymorth; a chyfrannu at ddatblygu economaidd. Disgwylir i'r tasglu gyflwyno adroddiad yn yr hydref.

- Annog unigolion o gymunedau sy'n draddodiadol brin eu cynrychiolaeth ar fyrddau rheoli cyrff cyhoeddus i geisio am y swyddi hynny. Mae'r gwaith hwn yn parhau wrth i'r Cynulliad ddatblygu ei berthynas â chymunedau a hysbysebu swyddi'n fwy effeithiol. Mae'r Uned Penodiadau Cyhoeddus yn parhau i annog penodi trawsdoriad eang o bobl. Mae nifer o Fentrau Gweithredu'n Bositif yn cael eu hystyried, gan gynnwys gwaith yn y gymuned a hyfforddiant ym maes cydraddoldeb i aelodau'r byrddau.
- Annog cynnwys cydraddoldeb yn un o'r meini prawf i'r rheini sy'n gwneud cais am gyllid o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (ESF). Mae hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb yn cael ei ddatblygu ar y cyd â WEFO er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb yn ystyriaeth ym mhob cam o'r broses o geisio am grantiau'r ESF.
- Strategaeth yr Oes Wybodaeth er mwyn agor drysau i'r rheini ag anableddau corfforol neu synhwyraidd. Datblygwyd y Strategaeth wedi ymgynghori'n eang gan ddefnyddio dulliau electronig (yn fewnol ac allanol). Mae'r gwaith wedi gosod safonau newydd ym maes ymgynghori, a chaiff y strategaeth ei chyflwyno i'r Cyfarfod Llawn ar 3 Gorffennaf.
- Datblygu Mentrau Gweithredu'n Bositif ar gyfer unigolion o grwpiau sy'n brin eu cynrychiolaeth. Benthycwyd un o fentrau Coleg y Gwasanaeth Sifil er mwyn cymryd camau positif i ddatblygu gyrfaedd staff o leiafrifoedd du ac ethnig. Yn ogystal â hyn, mae nifer o gynlluniau'n ymwneud â chyflogaeth ar fin cael eu cyflwyno (cysgodi staff, lleoliadau a chyfleon i unigolion o grwpiau prin eu cynrychiolaeth ddod ar secondiad i swyddi Gradd 5).

b. Llywodraeth Well

Roedd y Papur Gwyn ar Foderneiddio Llywodraeth a'r Cynlluniau Gweithredu a ddeilliodd o gyfarfod Penaethiaid Parhaol yr Adrannau yn Sunningdale ym 1999 yn pwysleisio bod yn rhaid cael mwy o amrywiaeth yn y Gwasanaeth Sifil. Mae'n ofynnol i bob Adran lunio Cynllun Gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â mater amrywiaeth. Yng Nghymru, Rhaglen Rhoi Llywodraeth Well ar Waith yw fy ymateb i sialens y Papur Gwyn ar Foderneiddio Llywodraeth.

Roedd y Papur Gwyn ar Foderneiddio Llywodraeth yn pwysleisio y dylai "y gwasanaeth cyhoeddus fod yn rhan o'r gymdeithas y mae'n ei wasanaethu, ac nid ar wahân iddi" ac, fel corff datganoledig, mae'r neges hon yn hanfodol i lwyddiant y Cynulliad. Drwy'r rhaglen Rhoi Llywodraeth Well ar Waith rwy'n dangos fy ymrwymiad personol cryf i gyfle cyfartal.

Un o saith thema Rhoi Llywodraeth Well ar Waith yw "**Cynnwys Cyfle Cyfartal yn ein holl Bolisiau ac Arferion**". Diffinnir hyn fel:

- "*Sicrhau bod polisiau'r Cynulliad yn ategu ei ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth a bod y Cynulliad yn dilyn yn llawn yr egwyddor o gydraddoldeb i bawb wrth weithredu ei swyddogaethau. Sicrhau bod y Cynulliad, fel cyflogwr, yn darganfod y talentau gorau ac*

yn elwa arnynt er mwyn cwrdd â'i anghenion, ar draws yr holl boblogaeth. Parhau i wella'r cydbwysedd rhwng dynion a menywod; ac, fel corff dwyieithog, cael mwy o staff sy'n siarad Cymraeg. Gwneud mwy i gyflawni potensial pobl anabl a phobl o'r lleiafrifoedd ethnig."

Er mwyn datblygu'r thema hon, nodwyd yn Rhoi Llywodraeth Well ar Waith a'r Cynlluniau Gweithredu ar Amrywiaeth rai camau pendant sy'n cael eu cymryd, er enghraifft:

- Gosodwyd targedau ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil, ac ar gyfer graddau is, er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg menywod, aelodau o leiafrifoedd ethnig a phobl anabl ar staff y Cynulliad;
- Mae cyrsiau hyfforddi ar amrywiaeth yn cael eu datblygu, gyda hyfforddiant i'r holl uwch weision sifil ar roi gwerth ar amrywiaeth a rheoli cynhwysiant;
- Mae'r systemau personél ar gyfer recriwtio, dyrchafu, pennu tâl a chynnal asesiadau perfformiad blynyddol yn cael eu hasesu ar sail profion cydraddoldeb a'u hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau nad oes unrhyw grwpiau penodol o staff yn cael eu trin yn annheg.

6. Casgliad

Wrth geisio gwneud cyfle cyfartal yn ganolog i waith y Cynulliad rydym wedi adeiladu ar y cychwyn cadarn a wnaed yn y flwyddyn gyntaf. Er hynny, mae llawer eto i'w wneud a rhaid wrth ymdrech gyson, arweiniad a champau ymarferol dros nifer o flynyddoedd er mwyn cyrraedd y nod.

Hanfod y broses o wneud cydraddoldeb yn ganolog i waith y Cynulliad yw newid gwerthoedd, syniadau ac agweddau unigolion ac, yn sgil hynny, ddiwylliant y sefydliad. Mae hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn gamau hanfodol yn y cyfnod cynnar hwn yn y broses. Gwelwyd datblygiadau cadarnhaol yn y maes hwn a disgwylir y gwelir camau breision yn ystod 2001. Dyma fydd un o dasgau cyntaf yr Uned Polisi Cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn nesaf wrth iddi greu ffyrdd newydd arloesol o godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb.

Mae Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000 ac adroddiad Roger McKenzie ar hiliaeth sefydliadol "Codi Pob Llais" yn cynnig mwy o symbyliad inni hyrwyddo cydraddoldeb mewn ffordd bositif ac i gymryd camau ymarferol. Bydd y ddau ohonynt yn ein helpu i weld pa brif feysydd y dylem weithredu ynddynt a'r camau i'w cymryd. Amlinellir yr hyn a gyflawnwyd yn y meysydd penodol hyn isod:

a. Creu Polisiâu

Yn y gorffennol rhoddwyd mwy o bwyslais ar sicrhau cydraddoldeb mewn cyflogaeth nag wrth lunio polisiâu. Un o'r prif themâu a gododd o'r ail archwiliad o gydraddoldeb oedd bod angen hyrwyddo cydraddoldeb wrth greu polisiâu ac wrth ddarparu gwasanaethau. Daeth yn amlwg o'r trafodaethau gyda'r is-adrannau a'r camau a gofnodwyd gan yr Uned Polisi Cydraddoldeb bod llawer o arferion da i'w gweld ar draws y Cynulliad, ond bod llawer eto i'w wneud i gynnwys grwpiau sy'n cael eu tan-gynrychioli ac i ymgynghori â hwy, a gwneud hynny lawer ynghynt yn y broses o ddatblygu polisiâu.

b. Staffio

Gwelwyd llawer o weithgaredd yn y maes hwn gan gynnwys cyflwyno cynllun gweithio hyblyg newydd er budd y rheini sydd â chyfrifoldebau domestig a theuluol; cynllun ymddeol mwy hyblyg sy'n caniatáu i staff oddi allan i'r Uwch Wasanaeth Sifil weithio hyd at 65 oed os dymunant; yr Archwiliad o Gyflog Cyfartal ym 1999 a 2000, a ddylanwadodd ar y Codiadau Cyflog ar gyfer 2000/1; trefniadau gwell ar gyfer absenoldeb i famau a thadau wedi iddynt gael neu fabwysiadu plant; y Ffair Recriwtio, a gynhaliwyd yn arbennig er mwyn denu ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig ac a ddenodd 16 o staff newydd o'r cymunedau hyn i'r Cynulliad. Mae mwyafrif y swyddi yn yr Uwch Wasanaeth Sifil bellach yn cael eu hysbysebu yn agored. Datblygwyd hefyd Strategaeth Gymunedol gyda phrofiad gwaith, lleoliadau diwydiannol (blwyddyn o hyd ar gyfer myfyrwyr Addysg Bellach), secondiadau a pharhad y cynllun Windsor Fellowship. Yn olaf, rydym wrthi'n llunio trefn gwerthuso perfformiad newydd, gan gynnwys ailddylunio'r adroddiad staff blynyddol.

Ceir mwy o ymwybyddiaeth bellach bod angen hyrwyddo cydraddoldeb drwy recriwtio, dyrchafu a datblygu. Bydd gweithredu "Codi Pobl Llais" yn effeithio'n fawr ar y modd bydd y Cynulliad yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn y dyfodol.

c. Mynediad

Mae mynediad yn ymwneud â hygyrchedd adeiladau'r Cynulliad gan gynnwys ei swyddfeydd rhanbarthol, a'r hawl i gael gwybodaeth, fel dogfennau ymgynghori a chanllawiau a gyhoeddir gan y Cynulliad gan gynnwys cyhoeddiadau mewn ieithoedd lleiafrifol, Braille a phrint bras ac ar dapiau. Ceir mwy o ymwybyddiaeth bod angen ystyried y materion hyn ac mae'r Uned Polisi Cydraddoldeb wedi cyhoeddi canllawiau newydd sy'n nodi'n glir sut i fynd i'r afael â hyn. Un enghraifft o'r camau sydd wedi'u cymryd ym maes hygyrchedd yw bod cyrff sy'n ymgyrchu dros gydraddoldeb i'r anabl wedi bod yn rhan o'r tîm a fu'n cynllunio adeilad newydd y Cynulliad.

d. Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth

Rhaid i hyn fod yn rhan ganolog o'r gwaith o hyrwyddo cydraddoldeb yn y flwyddyn nesaf. Bydd hyn yn galluogi aelodau a staff i ddeall beth a ddisgwylir oddi wrthynt ac i ddeall pwysigrwydd y materion hyn. Disgwylir y bydd y seminarau codi ymwybyddiaeth yn dechrau ym mis Mehefin 2001. Yn y flwyddyn nesaf bydd pecyn mwy arbenigol o wahanol fathau o hyfforddiant yn cael ei ddatblygu ar gyfer unigolion a thimau, yn ogystal â'r hyfforddiant ar godi ymwybyddiaeth y bydd staff a'r aelodau hynny sy'n dymuno ei dderbyn yn ei gael. Bydd cyfle cyfartal yn elfen bwysig o'r cwrs cynefino diwygiedig ar gyfer pob aelod newydd o staff. Wedi i'r strategaeth hyfforddi gael ei gweithredu yn llawn, ac wedi i'r uned helpu'r is-adrannau i wneud cyfle cyfartal yn rhan ganolog o'u cynlluniau a'u prosesau adolygu, bydd gan swyddogion y Cynulliad ddealltwriaeth ddyfnach o'r modd y gellir gwneud cydraddoldeb yn rhan o'r priif lif mewn ffordd ymarferol ac effeithiol.

JON SHORTRIDGE

Mehefin 2001

Atodiad A1: Rôl a Swyddogaethau'r Uned Polisi Cydraddoldeb

Rôl yr Uned Polisi Cydraddoldeb yw gweithredu cyfrifoldebau cydraddoldeb y Cynulliad mewn modd cydlynus a chyson. Sefydlwyd yr Uned yn yr Is-adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus ym mis Mehefin 1999. Mae'r Uned yn adnodd cyffredinol i holl swyddogion y Cynulliad, sy'n darparu arweiniad polisi a chyngor ynghylch materion cydraddoldeb.

Prif rôl yr Uned Polisi Cydraddoldeb yw cynorthwyo'r Cynulliad wrth iddo geisio cyflawni ei gyfrifoldebau statudol o ran cydraddoldeb, bodloni'r amcanion cydraddoldeb yn "Gwell Cymru" a chyflwyno'r fenter "Gwell Llywodraeth".

Mae prif amcanion yr Uned Polisi Cydraddoldeb yn cwmpasu pedwar prif faes:

ysgogi a hyrwyddo newid;

darparu canolfan arbenigedd a chyngor ar arferion gorau;

I gefnogi'r swyddogaeth honno, cynnal deialog â mudiadau sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifol a grwpiau o dan anfantais;

Cynorthwyo a chefnogi'r gwaith cyfle cyfartal a wneir gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, Gweinidogion y Cabinet a'r Ysgrifennydd Parhaol.

Mewn perthynas â hyn, llwyddodd yr Uned i gyflawni'r gwaith canlynol y llynedd:

Hyrwyddo newid

- Gweithio gydag is-adrannau'r Cynulliad i weithredu ar ganfyddiadau'r arolwg i bennu llinell sylfaen ym maes cydraddoldeb a'r ail arolwg cydraddoldeb.
- Mewn ymgynghoriad â'r is-adrannau, nodwyd a blaenoriaethwyd meysydd gweithredu. Sicrhawyd ymrwymiad yr uwch reolwyr i'r blaenoriaethau.
- Parhau i fonitro cynlluniau is-adrannol i sicrhau bod y blaenoriaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu ynddynt;

Datblygwyd polisi cydraddoldeb a strategaeth hyfforddiant gysylltiedig;

Adolygwyd trefniadau'r Cynulliad ar gyfer ymgynghori â mudiadau cydraddoldeb y sector gwirfoddol yng Nghymru a datblygwyd corff yn cynrychioli'r buddiannau hynny, gyda chymorth gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a'r Comisiwn Hawliau Anabledd ym mhob un o'u meysydd cyfrifoldeb, a all hwyluso cyfathrebu â'r Cynulliad (AWEMA, Anabledd Cymru a Chlymblaid Genedlaethol Menywod Cymru).

Cynhaliwyd cynlluniau peilot a phrofwyd dulliau gweithredu cyfle cyfartal, gan rannu gwybodaeth ynghylch arferion gorau.

Cyngor ac arbenigedd

Darparwyd adnodd canolog i is-adrannau'r Cynulliad, sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ar sut y gellir sicrhau bod cyfle cyfartal yn dod yn fater o bwys mewn meysydd polisi penodol, gan ddefnyddio profiadau rhannau eraill o'r DU;

Cadw ar y blaen i ddeddfwriaeth a mentrau cydraddoldeb cenedlaethol eraill er mwyn hysbysu is-adrannau polisi'r Cynulliad os bydd posibilrwydd y bydd ddeddfwriaeth yn effeithio ar eu meysydd cyfrifoldeb; er enghraifft, y Ddeddf Hawliau Dynol, Deddf Mewnfudo a Lloches, Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio), Adroddiad MacPherson ar lofruddiaeth Stephen Lawrence; a

Monitro datblygiadau a chyflwyno sylwadau ar ddeddfwriaeth a pholisi Ewropeaidd.

Deialog

Cynhaliwyd ac adeiladwyd ar y berthynas dda â'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a'r Comisiwn Hawliau Anabledd.

Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

Cefnogwyd y Pwyllgor drwy ddarparu cyngor ac arweiniad ynghylch materion polisi cydraddoldeb, ymateb i ohebiaeth ynghylch materion cydraddoldeb, cyfrannu at yr Adroddiad Blyneddol ar Gydraddoldeb a chynorthwyo gyda gwaith arolygu/monitro'r Pwyllgor;

Dyma amlinelliad o'r gwaith a wnaed gan yr Uned Polisi Cydraddoldeb ers mis Gorffennaf 2000 o dan y penawdau penodol Hil, Rhyw, Anabledd, Hawliau Dynol, Hyfforddiant a'r Arolwg Cydraddoldeb:

Materion Hil

- Gweithgor Addysg Ymchwiliad Stephen Lawrence:
 - Gweithgor Addysg: llwyddodd y gweithgor i nodi ffyrdd y gellir bwrw ymlaen ag argymhellion ymchwiliad Stephen Lawrence yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau gydag ACCAC ynghylch y cwricwlwm a'r angen am ddull aml-ddiwylliannol, arweiniad i ysgolion ynghylch aflonyddu hiliol a gofyniad i fonitro digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt.
 - Hiliaeth sefydliadol: comisiynodd y Cynulliad Ymgynghorydd Cydraddoldeb Hil yr Undeb PCS i nodi ffyrdd y gall y Cynulliad herio mater hiliaeth sefydliadol a datblygu cynllun gweithredu er mwyn symud ymlaen â'r prif elfennau.
- Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 – mae gweithredu'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) a sicrhau bod holl staff ac adrannau'r Cynulliad yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a'i goblygiadau yn dasg y dechreuwyd arni eleni a bydd yn parhau yn ystod y flwyddyn i ddod.

- Mewnfudo a Lloches wleidyddol – yn ystod y flwyddyn mae'r Uned wedi sicrhau bod y Cynulliad yn ymwybodol o'r materion diweddaraf yn ymwneud â rhaglen wasgaru ceiswyr lloches wleidyddol i Gymru.
- Gwaith allan yn y maes – mae creu cysylltiadau â chymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn rhan allweddol o waith yr Uned i sicrhau bod gwybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud i hybu cydraddoldeb hiliol yng Nghymru ar gael i'r cyhoedd. Mae'r Cynulliad wedi gweithio'n agos wrth ddatblygu cymdeithas lleiafrifoedd ethnig Cymru, AWEMA, i sicrhau bod cyfrwng i ymgynghori ar waith y Cynulliad gyda chymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig ac i nodi ac ymdrin â materion sy'n peri pryder i'r cymunedau hyn.
- Darparu cyngor ac arweiniad i staff ac is-adrannau'r Cynulliad – darparwyd cyngor i nifer o is-adrannau wrth lunio polisiau, dosbarthu gwybodaeth neu ymgynghori â grwpiau cydraddoldeb, er enghraifft, ymgynghori â chymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig ynghylch materion yn ymwneud â iaith, crefydd a gwybodaeth am arferion diwylliannol.
- Sialens Arweinyddiaeth – daeth y Cynulliad yn rhan o'r Sialens Arweinyddiaeth ym 1998 ac mae wedi parhau i weithio tuag at y nod.

Anabledd

- Sefydlwyd perthynas waith effeithiol â swyddogion y Comisiwn Hawliau Anabledd.
- Darparwyd cyllid a chymerwyd rhan mewn digwyddiadau teithiol a drefnwyd gan Anabledd Cymru, i ddatblygu fframwaith ymgynghori effeithiol a fydd yn galluogi'r Cynulliad i ystyried anghenion a barn pobl anabl wrth ddatblygu polisi.
- Ffurfiolwyd polisi'r Cynulliad ynghylch cynhyrchu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch.
- Darparwyd mewnbwn i ymateb y Llywodraeth i Adroddiad y Tasglu Hawliau Anabledd a darparwyd cyngor i'r Cynulliad ar y camau gweithredu sy'n ofynnol er mwyn cyflwyno'r argymhellion sy'n effeithio ar faterion wedi'u datganoli a bwrw ymlaen y tu hwnt i ofynion sylfaenol y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Rhyw

- Gwnaed cyfraniadau i'r strategaeth gofal plant, a fydd effeithio'n sylweddol ar gydraddoldeb merched.
- Cyfrannwyd i'r trafodaethau ynghylch gofynion cydraddoldeb Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).
- Gwnaed sylwadau ar strategaeth TGCh y Cynulliad.
- Bu cyswllt rhwng adrannau/is-adrannau ar faterion megis trais yn y cartref, a'r Strategaeth Gofal Plant.
- Bu cysylltiadau allan yn y maes â grwpiau sy'n gwarchod buddiannau rhyw. Gwella'r ddeialog a'r ymgynghori â'r Cynulliad.

- Bu datblygiadau pellach gyda'r prif chwaraewyr ym maes cydraddoldeb rhyw h.y. Comisiwn Cyfle Cyfartal, Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru, Chwarae Teg, Cynulliad Merched Cymru, Stonewall ac ati.
- Lanswyd y digwyddiad Merched Anghyfyngedig – Cymru ar 8 Mawrth (Diwrnod Rhyngwladol y Merched). O'r lansio dechreuol bwriedir cael rhaglen o ddigwyddiadau, mewn cydweithrediad â mudiadau perthnasol eraill, i ferched ar draws Cymru drwy gydol y flwyddyn. Caiff y digwyddiadau hyn eu cynnal yn lleol, mewn lleoliadau y gall merched eu cyrraedd yn hawdd a byddant yn canolbwyntio ar gyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol, cyflogaeth a dewisiadau. Rhagwelir y bydd gofal plant, addysg gyffredinol a chludiant yn faterion allweddol hefyd.

Rhywioldeb

Hwyluswyd sefydlu a datblygiad parhaus corff a all gynrychioli'r cymunedau lesbiaidd, hoyw a deurywiol yng Nghymru. Mae'r Uned wedi galluogi sefydlu gweithgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr cymunedau lesbiaidd, hoyw a deurywiol Cymru. Cylch gwaith y gweithgor hwn yw 'sefydlu deialog drws agored' a sicrhau mecanwaith priodol ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Cynulliad a hwyluso'r gwaith o drosglwyddo gwybodaeth i gymunedau Cymru.

Arolwg Cydraddoldeb

- Ymgymryd ag adolygiad o arferion cydraddoldeb yn y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ar y cyd â'r is-adrannau noddi perthnasol.
- Parhau'r Arolwg Cydraddoldeb – cynhaliwyd cyfweiliadau rhannol-strwythuredig gyda'r holl is-adrannau, gan ddarparu darlun cyfredol o i ba raddau y mae materion cyfleoedd cyfartal yn cael eu nodi, eu taclo a'u monitro ar hyn o bryd, a lefel y wybodaeth a'r ymrwymiad i faterion cyfle cyfartal ymhob un o is-adrannau'r Cynulliad.
- Cyfrannu persbectif cydraddoldeb i'r fenter Gwell Llywodraeth.
- Cyfrannu ar fater cydraddoldeb i faterion trawsbynciol y Cynulliad (Cynhwysiant Cymdeithasol, Datblygu Cynaliadwy, Strategaeth Gofal ac ati).

Hyfforddiant

- Peilotwyd hyfforddiant cydraddoldeb o ran recriwtio a dethol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n gyfrifol am benodiadau cyhoeddus.
- Datblygwyd a chwblhawyd Polisi Cydraddoldeb newydd i'r Cynulliad.
- Datblygwyd Dogfen Strategaeth Amrywiaeth.
- Datblygwyd a chwblhawyd Dogfen Strategaeth Hyfforddiant Cydraddoldeb.
- Dechreuwyd ar yr Asesiad Anghenion Hyfforddiant Cydraddoldeb i'r Cynulliad cyfan.
- Lanswyd y wefan a'r cylchlythyr Cydraddoldeb.

Hawliau Dynol

- Datblygwyd rhaglen hyfforddiant ar y Ddeddf Hawliau Dynol.
- Sicrhawyd bod awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol.
- Cynhaliwyd dwy gynhadledd ar y Ddeddf Hawliau Dynol.
- Datblygwyd gwefan Hawliau Dynol.
- Darparwyd cyngor polisi ar faterion Ewropeaidd yn ymwneud â chydraddoldeb, yn enwedig Erthygl 13 Cytundeb Amsterdam.
- Darperir cyngor polisi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Siarter yr Undeb Ewropeaidd ar Hawliau Sylfaenol.

Atodiad A2: Cynlluniau Cydraddoldeb yr Is-adrannau

Llywodraeth Leol

1. Cynhaliwyd ymgynghoriad â'r cyrff cydraddoldeb statudol ynghylch adolygiad o'r dangosyddion Gwerth Gorau; cytunwyd fod angen eu hadolygu'n gyson. Sefydlwyd grŵp yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y cyrff cydraddoldeb statudol, Syniad (yr asiantaeth gwella a datblygu llywodraeth leol yng Nghymru) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu Safon Cydraddoldeb Generig ar gyfer llywodraeth leol a fydd yn cael ei lansio yn ystod y Gynhadledd Llywodraeth Leol yn yr hydref. Bydd yn cynnwys rhestrau gwirio o ran hil, rhyw ac anabledd. Maent yn ystyried a fyddai modd cefnogi gweithredu'r Safon drwy sefydlu uned cydraddoldeb llywodraeth leol.
2. Bwriedir ymgynghori ar Orchymyn Gwerth Gorau newydd, a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i ystyried gallu'r contractiwr i gyflenwi gwasanaethau i wahanol gymunedau (yn cynnwys yr hyfforddiant ymwybyddiaeth a ddarperir i'r staff) lle bo hynny'n berthnasol.
3. Mae cydraddoldeb wedi ei gynnwys yn y codau ymddygiad enghreifftiol drafft ar gyfer aelodau etholedig a chyfetholedig a chyflogeion awdurdodau lleol. Bydd gan y codau hyn statws statudol. Bydd pwyllgorau safonau a system newydd o ymchwilio i gwynion a phennu cosbau yn ganolog i gôd yr aelodau. Bydd côd y cyflogeion yn rhan o'u hamodau a'u telerau gwaith.
4. Mae canllawiau drafft ynghylch strategaethau cymuned yn cyfeirio at yr angen i sicrhau bod yr ymdrechion i gynnwys cymunedau lleol yn ymdrin â'r mater o sut i gyrraedd pob rhan o'r cymunedau hynny. Mae hyn yn rhoi pwyslais cryf ar wneud ymdrechion arbennig i ystyried grwpiau o dan anfantais a hygyrchedd gwybodaeth i bobl ag anabledd ac mewn ieithoedd lleiafrifol.
5. Mae astudiaeth o lwfansau aelodau Awdurdodau Lleol, a fydd yn edrych ar y gefnogaeth sydd ei hangen ar bobl er mwyn dod yn gynghorwyr a ffactorau eraill a allai eu rhwystro rhag ymgymryd â'r gwaith, ar fin cael ei chomisiynu. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth o'r cymorth sydd ei angen ar y rheini â chyfrifoldebau gofalu, cyfleusterau ffisegol a materion ehangach megis yr hyn fyddai ei angen i annog y grwpiau sydd wedi eu tan-gynrychioli, gan gynnwys merched, lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl ifanc, i ystyried cymryd rhan yng ngweithgareddau'r cyngor.

Cludiant

6. Mae anghenion grwpiau dan anfantais wedi eu hystyried wrth ddatblygu polisïau cludiant y Cynulliad; er enghraifft, aelodaeth Grŵp Ymgynghorol Cludiant Pobl Anabl o Fforwm Trafnidiaeth Cymru, ymgynghoriad DPTAC, Anabledd Cymru ac AWEMA ar y cynigion ar gyfer y Grant Gwasanaethau Cludiant Lleol.
7. Mae cludiant cyhoeddus, oherwydd ei rôl yn darparu hygyrchedd i'r grwpiau sydd wedi'u dieithrio'n gymdeithasol a grwpiau llai ffyniannus yn economaidd, yn tueddu i gynnwys nifer anghyfrannol o ferched, pobl o leiafrifoedd ethnig, plant ifanc iawn a phobl hŷn ymhlith ei deithwyr o'i gymharu â'r gyfran yn y gymdeithas gyfan. Golyga hyn fod gwella cludiant cyhoeddus, sef un o brif nodau polisi'r Is-adrannau Polisi Cludiant, hyd yn oed heb dargedu'r

grwpiau hyn yn benodol, yn mynd i fod o fudd wrth geisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran y modd y gallant gyrchu cyfleoedd cyflogaeth, lles a hamdden.

8. Yn ychwanegol at ei bolisiâu cludiant cyffredinol, mae'r Is-adran Polisi Trafnidiaeth wedi datblygu nifer o gynlluniau sy'n cynnwys buddiannau wedi'u targedu'n benodol at grwpiau sydd dan fwy o anfantais, yn cynnwys:

- Cyflwyno pas bws am ddim i bensiynwyr a phobl anabl erbyn mis Ebrill 2001, a chaniatáu i'r grŵp yma deithio ar y bysiau am ddim erbyn mis Ebrill 2002.
- Bathodynnau Glas

9. Yn ychwanegol, mae telerau y prif grantiau cludiant eraill yn cynnwys cyfeiriad at bwysigrwydd sicrhau mynediad i'r anabl i'r holl wasanaethau ac isadeiledd a ariennir gan Grant Cludiant y Cynulliad a chynlluniau Grant Gwasanaethau Cludiant Lleol.

10. Un o'r meini prawf cyffredinol ar gyfer prosiectau a gyflwynwyd ar gyfer cefnogaeth Grant Cludiant yw y dylent gyfrannu'n uniongyrchol at ymdrin â materion hygyrchedd neu leihau'r ddibyniaeth ar y car drwy annog newid dull trafniadaeth, gan adlewyrchu angen y Cynulliad i ymdrin â materion datblygu cynaliadwy, hygyrchedd a chyfle cyfartal.

11. Mae'r llythyrau ynghylch y dyraniad ariannol i awdurdodau lleol eleni wedi cynnwys paragraff sy'n nodi "Wrth baratoi cynigion ar gyfer cynlluniau i'w ariannu gan Grant Cludiant, disgwylir i awdurdodau gynnwys hygyrchedd i bobl anabl fel un o amodau cynnig cefnogaeth. Tynnir sylw'r Awdurdodau at argymhellion y Pwyllgor Ymgynghorol Cludiant Pobl Anabl a sefydlwyd o dan Ddeddf Trafnidiaeth 1985, argymhellion o ran symudedd a chynhwysiant Uned Symudedd Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (DETR) a deddfwriaeth berthnasol" gan atgyfnerthu'r egwyddorion a nodwyd yn y meini prawf.

Ystadegau

12. Mae'r Gyfarwyddiaeth Ystadegau yn cynorthwyo'r Is-adran Cymorth Disgyblion wrth ddatblygu canllawiau i ysgolion ynghylch casglu gwybodaeth grŵp ethnig gan ddisgyblion. Unwaith y bydd yr arweiniad wedi ei gyhoeddi bydd y cwestiwn ar y Cyfrifiad Ysgolion yn ymwneud â set ehangach o gategorïau ethnig.

13. Mae'r Cynulliad hefyd yn talu am sampl llawer mwy ar gyfer yr Arolwg Llafurlu chwarterol yng Nghymru, gan ddechrau yng ngwanwyn 2001. Bydd hyn yn gwella dibynadwyedd amrediad eang o ystadegau – yn enwedig gwybodaeth am y farchnad lafur – yn ôl rhyw, hil ac anabledd (er y bydd maint y samplau ar gyfer lleiafrifoedd ethnig a grwpiau anabl yn parhau'n rhy fach i'w dadansoddi'n fanwl iawn).

14. Un o'r 25 amcan allweddol yn y Cynllun Ystadegau, a gyhoeddwyd gan y Cynulliad ym mis Gorffennaf ar ôl ymgynghori eang, yw llunio adroddiad ar faterion cydraddoldeb erbyn mis Chwefror 2001. Ymhlith yr amcanion allweddol eraill y mae datblygu cynigion i wella'r data sydd ar gael ym meysydd cydraddoldeb (gyda'r pwyslais ar hil ac anabledd).

Y Celfyddydau

15. Consortiwm Diwylliannol newydd y Cynlluniad yw Cymru'n Creu, a sefydlwyd gan y Gweinidog dros Ddiwylliant er mwyn rhannu profiadau, pennu blaenoriaethau a gweithredu er budd diwylliant yng Nghymru. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl prif gyrff cyhoeddus diwylliannol ac economaidd a noddir gan y Cynulliad, Darlledwyr a Llywodraeth Leol. Bydd ganddo rôl allweddol wrth ddatblygu'r diwydiannau diwylliannol yng Nghymru.

16. Mae Elan Clos Stephens, Cadeirydd S4C, wedi cynnig cynnal seminar undydd ddiwedd mis Mai, lle bydd aelodau'r consortiwm diwylliannol yn adrodd yn ôl am y cynnydd yn erbyn cwestiynau allweddol – gyda materion hygyrchedd a ieithyddol ymhlith y rhain. Bydd aelodaeth Cymru'n Creu yn cynnwys cynrychiolwyr o fudiadau lleiafrifoedd ethnig a phobl dduon.

CADW

17. Mae CADW wedi cyhoeddi Arweiniad i Ymwelwyr Anabl – llyfryn sy'n darparu gwybodaeth am y cyfleusterau sydd ar gael yn safleoedd y gwahanol henebion. Hefyd cyhoeddodd CADW ddogfen ymgynghorol ym mis Mawrth 2001 ynghylch arweiniad i'r awdurdodau lleol ac eraill ar sut y gellir gwneud addasiadau i wneud lle i'r anabl neu ddarparu mynediad i'r anabl mewn adeiladau hanesyddol.

Iechyd

18. Mae rhaglen yr Is-adran Hybu Iechyd i weithredu strategaeth hybu iechyd y Cynulliad yn cynnwys gweithredu i wella'r wybodaeth iechyd i grwpiau sy'n fwy agored i niwed neu o dan anfantais, yn cynnwys pobl ag anableddau, pobl ag anawsterau dysgu a phobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig neu gymunedau du.

19. Y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd – gwnaed darpariaeth fel y gellir cefnogi gwaith sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau lleol o ran cael at wasanaethau iechyd.

20. Lluniwyd y ddogfen Strategaeth Hybu Iechyd mewn Braille a phrint bras. (Mae nifer gynyddol o gyhoeddiadau'r Cynulliad ar gael mewn fformatau gwahanol, fel ar dâp neu brint bras.)

21. Mae'r trefniadau ar gyfer dyrannu adnoddau i iechyd a gwasanaethau iechyd yn destun adolygiad ar hyn o bryd, sy'n cynnwys cynghori'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y ffordd fwyaf priodol o ddyrannu adnoddau yn unol ag anghenion iechyd. Gan fod yr amcan yn un cymhleth sefydlwyd proses adolygu wedi ei seilio ar Grŵp Tasg cynhwysol iawn i sicrhau cyfranogiad llawn ledled Cymru, ar sail gwaith ymchwil wedi'i seilio ar dystiolaeth gan dîm ymchwil arbenigol.

22. Bydd canfyddiadau'r Grŵp Tasg a'r Tîm Ymchwil yn cael eu cyflwyno i Grŵp Adolygu'r Prosiect a Grwp Llywio Cenedlaethol. Mae'r strwythur rhyngweithiol yma yn sicrhau bod arbenigedd ymarferol a phrofiad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, llywodraeth leol a swyddogion y Cynulliad yn cael ei gynnwys ar bob cam allweddol.

23. Mae'r Adolygiad hefyd wedi gosod ei amcan ganolog yng nghyd-destun polisïau ehangach y Cynulliad o ran gwella iechyd ac ymdrin ag iechyd gwael a'i amcan penodol o ymdrin ag anghydraddoldebau mewn statws iechyd.

24. Wrth gynllunio'r ymgyrch 'Cadwch yn Iach y Gaeaf Hwn' cafodd anghenion yr henoed du a lleiafrifoedd ethnig a'u hanghenion gwybodaeth eu hystyried. Datblygwyd ymgyrch bosteri yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru yn ogystal ag un wedi'i anelu'n benodol at yr henoed du a lleiafrifoedd ethnig.

25. Darperir cyllid a chefnogaeth weithredol i ddau weithiwr lleiafrifoedd ethnig a gyflogwyd i nodi rhai o anghenion gwasanaethau iechyd poblogaethau du a lleiafrifoedd ethnig Cymru.

26. Mae Menter Gofal Llygaid newydd y Cynulliad wedi ei dargedu'n benodol at y grwpiau lleiafrifoedd ethnig sydd â'r risg uchaf o ddioddef problemau gyda'u llygaid/golwg.

27. Ariannu cynhadledd AWETU (elusen iechyd meddwl sy'n ymdrin â phroblemau penodol lleiafrifoedd ethnig yw AWETU) a fydd yn eu galluogi i ymateb yn llawn i fersiwn ddrafft y strategaeth iechyd meddwl oedolion.

CYNLLUNIO

28. Canllawiau Cynllunio Cymru (Drafft) – gall polisi cynllunio gynorthwyo i sicrhau cyfleoedd cyfartal. Cafodd y polisiau yn fersiwn ddrafft 'Canllawiau Cynllunio Cymru', a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ar 27 Chwefror 2001, eu hasesu i sicrhau eu bod yn hybu cyfle cyfartal. Y bwriad yw gwneud y system gynllunio mor hygyrch â phosibl i'r cyhoedd i gyd.

Menter Ddylunio'r Cynulliad Cenedlaethol

29. Ym mis Awst 2000 lansiodd y Cynulliad Cenedlaethol fenter i godi'r safonau dylunio yng Nghymru. Sefydlwyd Grŵp Llywio i gynorthwyo gyda'r fenter yn cynnwys cynrychiolwyr o Anabledd Cymru, Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru a Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru.

30. Rhan o'r fenter yw paratoi polisi cynllunio wedi'i ddiweddarau o ran agweddau dylunio ynghyd â pholisi hygyrchedd i bawb. Mae'r dull polisi a gynigir yn awr wedi ceisio symud oddi wrth ystyried anghenion hygyrchedd a mynediad yr anabl fel rhai grŵp ar wahân y mae angen darpariaeth arbennig ar eu cyfer, i ddull cynhwysol o sicrhau gwelliannau mynediad sy'n ystyried anghenion yr holl ddefnyddwyr, yn cynnwys pobl ag anableddau a'r henoed. Mae'r canllawiau polisi hyn wedi eu cynnwys yn fersiwn ddiwygiedig Polisi Cynllunio Cymru, sydd hefyd yn cynnwys polisi diwygiedig ar sut y gall y system gynllunio gyfrannu at leihau troseddau, a fydd o fudd i bob sector yn y gymuned.

31. Rhan arall o'r fenter yw paratoi Nodyn Cyngor Technegol diwygiedig ynghylch dylunio. Bydd hyn yn darparu rhagor o gyngor manwl ar sicrhau hygyrchedd i bawb a bydd yn adlewyrchu'r gofynion cyfreithiol cyfredol i fodloni anghenion pobl anabl. Bydd hefyd yn cynnwys cyngor ar sut y gellir gweithredu'r canllawiau polisi ynghylch lleihau troseddau. Caiff y cyngor diwygiedig ei gyhoeddi yn y dyfodol agos i'w drafod gyda Grŵp Llywio'r Fenter Ddylunio, a'i ryddhau er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd.

Addysg

Addysg Uwch

32. Fel rhan o'i waith gofynnwyd i'r Grŵp Ymchwilio i Galedi Myfyrwyr dderbyn tystiolaeth gan wahanol grwpiau, yn cynnwys rhai'n cynrychioli agweddau cyfleoedd cyfartal ac anabledd. Mae'r sector Addysg Uwch yn ystyried sut i sicrhau cynrychiolaeth decach ymhlith darlithwyr Addysg Uwch gydag adroddiad erbyn mis Ionawr 2002.

Arweinyddiaeth Ysgol

33. Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth – rydym yn annog y rhai sydd â'u bryd ar fod yn benaethiaid yng Nghymru i astudio ar gyfer y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol Prifathrawiaeth ac mae hyn yn cwmpasu materion cyfle cyfartal a chynhwysiant. Hefyd yn ystod 2001 rydym yn datblygu set newydd o fodiwlau ar gyfer arweinwyr ysgolion ac eithrio'r pennaeth e.e. penaethiaid adran a dirprwy benaethiaid. Bydd y Modiwlau Arweinyddiaeth Ysgol hyn yn cynnwys uned ar gyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol.

34. Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru – mae anabledd a chefnidir ethnig wedi eu cynnwys fel meysydd gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y gofrestr athrawon. Defnyddir y wybodaeth at ddibenion monitro yn unig, a ddylai fod o gymorth wrth hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol ac eraill ynghylch recriwtio, cadw a chynnydd athrawon anabl ac athrawon o leiafrifoedd ethnig.

35. Canllawiau ar arferion da i ysgolion – ym mis gorffennaf 2000 lansiodd canllawiau ar arferion da i ysgolion, "Cyflogi Athrawon Anabl". Lluniwyd y llyfryn gan SKILL (y Biwro Cenedlaethol dros Fyfrwyr ag Anableddau) mewn partneriaeth â'r Cynulliad Cenedlaethol a'r asiantaeth hyfforddi athrawon. Anfonwyd copïau o'r llyfryn at benaethiaid yr holl ysgolion yng Nghymru, yr holl awdurdodau addysg lleol a mudiadau addysgiadol eraill.

36. Mae'r Is-adran Addysgu ac Arweinyddiaeth wedi parhau i gynyddu nifer y rhai sy'n anelu at fod yn benaethiaid sy'n cyflawni'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol Prifathrawiaeth. Mae'r cymhwyster yn cynnwys ymdrin â materion cyfle cyfartal.

37. Mae'r Is-adran Addysgu ac Arweinyddiaeth yn datblygu Modiwlau Arweinyddiaeth Ysgol ar gyfer y tîm arweinyddiaeth ehangach mewn ysgolion, a bydd yn cynnwys uned ar gyfle cyfartal.

38. Mae'r Is-adran Rheoli Ysgolion yn ceisio hybu mwy o amrywiaeth yng nghyfansoddiad cyrff llywodraethol ysgolion mewn ymdrech i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn well. Hyd yma, rydym wedi cynnal trafodaethau ag Awdurdodau lechyd Lleol ynghylch yr angen iddynt fonitro cyfansoddiad cyrff llywodraethol o ran rhyw, cefndir ethnig ac anabledd. Nid oes unrhyw AALI yng Nghymru yn cadw'r wybodaeth hon ar hyn o bryd, ond byddwn yn cydweithio â hwy dros y misoedd nesaf i'w hannog i sefydlu systemau a fydd yn darparu gwybodaeth llinell sylfaen a gwybodaeth fonitro wedi'i diweddarau'n rheolaidd. Rydym yn ystyried atgyfnerthu'r cais yma drwy gynnwys gofyniad i Awdurdodau Addysg Lleol ddarparu gwybodaeth fonitro flynyddol yn eu Cynlluniau Strategol ar gyfer Addysg o 2002 ymlaen.

39. Law yn llaw â'r fenter hon, yn ddiweddar mae'r Gweinidog Addysg wedi cytuno ar gynigion i swyddogion gynnal cyfres o gyflwyniadau codi ymwybyddiaeth yn tynnu sylw at rôl a chyfraniad llywodraethwyr ysgol, a'r modd y gall pobl sy'n gwirfoddoli elwa o'r profiad. Ein

nod yw targedu grwpiau cydraddoldeb hiliol a chydraddoldeb anabled lleol a Chymru gyfan gyda'r cyflwyniadau hyn yn ystod 2001.

40. Mae'r Cynulliad yn llunio'r Arweiniad i Rieni sy'n esbonio'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r trefniadau asesu ac adrodd cysylltiedig mewn nifer o ieithoedd ethnig.

41. Mae'r Cynulliad wedi llunio astudiaeth allweddol (Ymestyn Hawliau – cefnogi pobl ifanc yng Nghymru) sy'n cynnig y dylai polisi ieuencid gael ei lywio gan ystyriaethau cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol. Trwy ymgynghori â Race Equality First ac AWEMA sicrhawyd bod yr adroddiad yn adlewyrchu perspectif pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig, a'u rhieni.

42. Sefydlwyd gweithgor yn cynnwys ESTYN, ACCAC, AWEMA, Heddlu De Cymru a swyddogion o'r Cynulliad i ystyried argymhellion adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence yn ymwneud ag addysg. Bydd y gweithgor yn ystyried yn benodol sut y gellir cynnwys materion hil yn y cwricwlwm.

Monitro Ethnig

43. Gofynnwyd i holl Gyfarwyddwyr Addysg yr awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am nifer y disgyblion lleiafrifoedd ethnig, y grwpiau ethnig, cyraeddiadau disgyblion ethnig a phresenoldeb disgyblion ethnig. Y bwriad oedd darparu gwell dealltwriaeth o sefyllfa Awdurdodau Addysg Lleol o ran casglu data sy'n ymwneud â thras ethnig disgyblion.

44. Mae canllawiau drafft yn cael eu paratoi yn awr ynghylch monitro ethnig mewn ysgolion, a fydd yn adlewyrchu'r canllawiau drafft a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg a Chyflogaeth (DfEE). Bwriedir cynnal ymgynhorïad eang â'r holl awdurdodau addysg lleol yng Nghymru, sampl o ysgolion, cynghorau cydraddoldeb hiliol a mudiadau eraill.

Adroddiad MacPherson

45. Mae Gweithgor wedi ystyried argymhellion addysg Adroddiad MacPherson (Argymhellion 67-69). Mae nifer o ymatebion a champau gweithredu pellach wedi'u nodi mewn ymateb i'r argymhellion hyn, a chyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Mae'r rhain wedi mynd i'r afael â materion ymdrin â hiliaeth a hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol yn y cwricwlwm cenedlaethol; ffurfio strategaeth i atal, ymdrin â a chofnodi achosion o hiliaeth mewn ysgolion; a monitro'r strategaethau hyn gan Estyn.

Y Cwricwlwm Cenedlaethol

46. Cyflwynwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol cyntaf yn ymwneud yn benodol â Chymru ym mis Medi 2000 yn dilyn tair blynedd o waith ymchwil, datblygu ac ymgynghori cynhwysfawr. Er i adroddiad MacPherson ymddangos yn ystod camau terfynol adolygu'r cwricwlwm, roedd goblygiadau'r adroddiad wedi'u hystyried yn y cwricwlwm diwygiedig. Yn ychwanegol at adolygu'r rhaglenni astudio unigol, bu ACCAC yn gyfrifol am gynhyrchu dau fframwaith, un Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) a'r llall yn ymwneud ag Addysg Gysylltiedig â Gwaith (AGG). Diben hyn oedd ymateb i nodau Gweinidogaethol yr adolygiad a oedd yn cynnwys adolygu'r arferion gorau o ran ABCh a rhoi mwy o bwyslais ar helpu i baratoi disgyblion ar gyfer y cyfleoedd, y cyfrifoldebau a'r profiadau sy'n dod yn sgil bod yn oedolion a bywyd gwaith.

47. DATBLYGWYD Y FFRAMWAITH ABCH GAN WEITHGOR TRAWS-SECTOR AC MAE’N TALU SYLW PENODOL I BRIF FLAENORIAETHAU POLISI’R CYNULLIAD O HYBU CYFLEOEDD CYFARTAL, YMDRIN Â RHAGFARN A STEREOTEIPIO, PARCHU ERAILL A GWERTHFAWROGI AMRYWIAETH DDIWYLLIANNOL. MAE’R FFRAMWAITH YN DIFFINIO ABCH FEL “POPETH YR YMGYMERA’R YSGOL AG EF ER MWYN HYRWYDDO DATBLYGIAD PERSONOL A CHYMDEITHASOL EI DISGYBLION”. DEFNYDDIR SYMBOLAU YNG NGORCHMYNION PWNC Y CWRICWLWM CENEDLAETHOL I DDANGOS LLE MAE’R GWAITH YMHOB PWNC YN CYFRANNU’N BENODOL AT GANLYNIADAU DYSGU ABCH.

48. UN O NODAU’R FFRAMWAITH YW SICRHAU NAD YW ABCH YN CAEL EI NEILLTUO I WERSI ARBENNIG GAN YSGOLION, OND YN CAEL EI GYFLENWI DRWY BOB PWNC.

Arweiniad ACCAC ar gyfle cyfartal:

49. Mae’r Cynulliad wedi gofyn i ACCAC gyflawni’r gorchwyl o lunio arweiniad sy’n tynnu sylw at y cyfleoedd i ymdrin â materion cyfle cyfartal ar draws y cwricwlwm, mewn Saesneg, Mathemateg neu Gerddoriaeth er enghraifft. Bydd yr arweiniad hwn yn:

- mapio’r cyfleoedd ymhob pwnc i hybu cyfle cyfartal, yn cynnwys ymdrin â hiliaeth,
- cynnwys enghreifftiau ac astudiaethau achos i ysgolion eu defnyddio wrth gyflenwi’r cwricwlwm i hybu amrywiaeth ddiwylliannol ac ymdrin â hiliaeth.

50. Cafwyd cefnogaeth eang i’r arweiniad hwn, mewn egwyddor, gan y Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a’r Comisiwn Hawliau Anabledd. Y nod yw cyhoeddi’r arweiniad ar y rhyngwyd ym mis Awst 2001.

Gweithgor AALI/Cynulliad

51. Mae gweithgor ar y cyd rhwng yr Awdurdodau Addysg Lleol a’r Cynulliad ar fin cael ei sefydlu, yn cynnwys cynrychiolwyr o ACCAC ac Estyn, i ddatblygu manylion y trefniadau cefnogi disgyblion o leiafrifoedd ethnig. Mae hyn yn debygol o gynnwys ymchwiliad i lawer o’r materion uchod, yn enwedig y trefniadau ar gyfer dosbarthu’r Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAG).

52. Ym mis Mehefin 2000, lansiodd y Gweinidog Addysg a Phlant adroddiad Estyn ar ‘Safonau ac Ansawdd mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd – darparu ar gyfer disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol’. Roedd yr adroddiad yn nodi arferion da o ran darparu Saesneg fel iaith ychwanegol, y diffyg data ar ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig a pholisïau ar gyfer ymdrin â hiliaeth a hybu cydraddoldeb hiliol mewn ysgolion.

Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAG)

53. Mae’r arian ar gyfer y *Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig*, sy’n rhan o’r rhaglen Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GEST), wedi cynyddu £2m ar ffigwr y llynedd.

54. Nod y grant yw gwella cydraddoldeb cyfleoedd addysgol i'r holl grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cynnwys, yn benodol, fesurau i gynorthwyo disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a mesurau i wella safonau cyrhaeddiad a delio â'r risg o dangyflawni.

55. Ym mis Gorffennaf 2000 lanswyd "Cyflogi Athrawon Anabl", canllawiau ar arferion da i ysgolion. Lluniwyd y llyfryn gan SKILL (y Biwro Cenedlaethol dros Fyfyrrwyr ag Anableddau) mewn partneriaeth â'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Asiantaeth Hyfforddi Athrawon. Anfonwyd copïau o'r llyfryn at bob pennaeth, yr holl Awdurdodau Addysg Lleol a mudiadau addysgol eraill.

56. Mae'r Is-adran Addysgu ac Arweinyddiaeth wedi sefydlu Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, sy'n gwneud cynnydd da gyda'i gofrestr athrawon. Mae anabledd a chefnidir ethnig wedi eu cynnwys fel manylion ar y gofrestr, ond defnyddir y data mewn modd gyfanredol yn unig at ddibenion monitro. Dylai gynorthwyo'r Cynulliad Cenedlaethol ac eraill wrth edrych ar recriwtio, cadw a chynnydd athrawon anabl ac athrawon o gefndiroedd ethnig.

Adfwydo Cymunedau a Chynhwysiant Cymdeithasol

Rhoi Cymunedau'n Gyntaf

57. Mae'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn ymdrin, mewn ffordd nad yw'n gyfarwyddol, ag adfywio cymunedau, drwy roi pwyslais ar y gymuned – ac mae wedi'i thargedu at gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae prosesau ymgynghori eang a chynhwysfawr yn cael eu cynnal mewn perthynas â Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, gan alluogi holl sectorau cymdeithas i gyfrannu eu syniadau a'u safbwyntiau. Un o'r testunau ymgynghori yn y ddogfen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf oedd "a yw cymunedau o ddiddordeb neu sydd ag anghenion arbennig yn haeddu ymchwiliad a/neu gefnogaeth y tu hwnt i'r ddarpariaeth yn rhaglenni a mentrau cyfredol y Cynulliad". Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru a Chymdeithas y Deillion (RNIB) ymhlith y rhai ar y rhestr cysylltu.

Cronfa Asedau a Atafaelwyd

58. Ym 1999/2000, dywedodd Cydlynnydd Gwrth-Gyffuriau y DU y byddai asedau a atafaelwyd oddi wrth y rhai sy'n delio mewn cyffuriau yn cael eu sianelu yn ôl i weithgareddau gwrth-gyffuriau drwy gronfa newydd, Cronfa Asedau a Atafaelwyd. Roedd un o'r categorïau ariannu y gofynnwyd am gynigion ar eu cyfer i dderbyn arian o'r Gronfa yn ymwneud â'r trafferthion yr oedd pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig a merched yn eu profi wrth geisio mynediad i wasanaethau. Yn 2000-2001, derbyniodd y Cynulliad arian o'r Gronfa Asedau a Atafaelwyd ar gyfer y prosiectau a ganlyn:

- Cynhyrchu taflen "Cyffuriau – Atebion i'ch Cwestiynau" ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Cynhyrchwyd y daflen mewn 5 iaith -Punjabi, Gujarati, Bengali, Somali a Chantoneg.
- Gweithiwr Therapi Creadigol yn cyd-fynd â gwaith Gweithwraig Merched i ddarparu gwasanaeth wedi ei dargedu at grwpiau y bu'n anodd ennyn eu sylw, yn cynnwys merched sy'n agored i niwed.

Sector Gwirfoddol

59. Mae'r Cynulliad wedi ariannu swyddi swyddog datblygu i'r Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon, a sefydlwyd i gynnig cyngor i gymunedau duon sy'n dioddef o ragfarn, gwahaniaethu a hiliaeth, a hefyd Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru, AWEMA. O ran y Rhwydwaith mae'r ariannu o dan y Cynllun Cefnogi Gwasanaeth Cyfryngol Gwirfoddol wedi cynyddu yn 2001-2002 i ymdrin â materion cynyddu gallu. Yn ychwanegol, bydd holl aelodau sector gwirfoddol Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol, gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli lleiafrifoedd ethnig, rhyw ac anabledd, yn derbyn swm bach o arian o'r Gronfa Partneriaeth Cynyddu Gallu newydd i'w cynorthwyo wrth gynrychioli diddordebau eu haelodau ar y Cyngor.

60. Mae gwaith yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ym maes heneiddio a chefnidir ethnig drwy Age Concern Cymru a grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Sicrhodd Cynllun Busnes ar gyfer 2001-2004 ar y cyd ag Age Concern Cymru fod hyn yn cynnwys camau gweithredu i ddod â chyrff perthnasol ynghyd i ystyried y materion cyfredol a'r rhai yn y dyfodol o ran y boblogaeth lleiafrifoedd ethnig hŷn. Hefyd dymunwn weld cydweithio effeithiol gyda'r grwpiau lleiafrifoedd ethnig a duon yng Nghymru wrth gyflawni'r rhaglen waith hon.

CYLLID

Caffael

61. Mae'r Is-adran Atebolrwydd Ariannol yn gweithio gyda'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal i gyflwyno ystyriaeth o faterion cydraddoldeb fel rhan o'r broses gaffael drwy ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr fabwysiadu côd ymarfer cydraddoldeb.

Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad

62. Ymhlith cyfrifoldebau'r Is-adran Cynllunio Ariannol mae cydlynu'r rhaglen o adolygiadau pum mlynedd o'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a chyrff tebyg. Mae'r canllawiau ar gyfer y cwestiynau y bydd yr adolygiadau hyn yn ymdrin â hwy yn cynnwys:

"A yw'r Corff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn gweithio'n effeithiol ar y lefel strategol, beth yw ei gyfraniad i amcanion ehangach y Cynulliad, a yw'n cynnal ei fusnes yn unol ag egwyddorion a gwerthoedd y Cynulliad (er enghraifft, partneriaeth, cynhwysiant, cyfle cyfartal, gwell llywodraeth)."

63. Yn unol â'r rhaglen adolygiadau a gyhoeddwyd ar 10 Mai 2000, mae adolygiadau pum mlynedd wrthi'n cael eu cynnal ar Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru. Y nod yw y bydd mwyafrif y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad wedi eu hadolygu erbyn diwedd 2003.

64. Yn ychwanegol, mae'r Is-adran Cynllunio Ariannol yn cynnal adolygiad ar hyn o bryd, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Gyllid ar 10 Ionawr 2001, o dâl cydnabyddiaeth a threuliau Cadeiryddion ac Aelodau cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Nod yr adolygiad yw gwneud tâl cydnabyddiaeth a threuliau'r rhai a benodir gan y Cynulliad i swyddi cyhoeddus yn fwy cyson a sicrhau nad yw trefniadau tâl cydnabyddiaeth yn rhwystr i amrywiaeth, er mwyn sicrhau y gall nifer uwch ac amrediad ehangach o bobl wneud cais i'w penodi i swyddi cyhoeddus.

Adran Ewropeaidd

GB EQUAL

65. Mae swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol wedi cydweithio'n agos iawn â'r tri chomisiwn cydraddoldeb a chynrychiolwyr mudiadau cydraddoldeb eraill yng Nghymru wrth ddylanwadu ar ddatblygiad y Rhaglen Menter Cymuned GB EQUAL. Roedd y dull partneriaeth yma hefyd yn rhan annatod o ddatblygu Cynllun Cyflwyno EQUAL yng Nghymru, sy'n fenter sy'n anelu at oresgyn pob ffurf ar wahaniaethu ac anghydraddoldeb mewn perthynas â'r farchnad lafur."

66. Mae'r fenter hon yn cynnwys pwyslais arbennig ar ymdrin â gwahaniaethu mewn materion hil, ymhlith eraill. Mae AWEMA wedi chwarae rhan amlwg yn y trafodaethau hyn. Noder: rhaglen i Brydain Fawr yw hon dan arweiniad yr Adran Addysg a Chyflogaeth (DfEE) mewn ymgynghoriad â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Swyddfa Weithredol yr Alban.

Materion Economaidd

67. Yn ddiweddar arwyddodd y Cynulliad gytundeb ariannol gyda'r mudiad i ariannu Pwyllgor Datblygu Economaidd AWEMA. Bydd y grantiau, sy'n dod i gyfanswm o £166,000, yn cael eu defnyddio i gyflogi staff i gefnogi'r Pwyllgor a darparu offer TG. Fe'u telir dros y tair blynedd nesaf.

68. Cafodd G7 yn yr Is-adran Datblygu Economaidd ei secondio i AWEMA yn rhan amser am ddeufis o fis Chwefror. Ei dasg oedd cynorthwyo AWEMA i baratoi ei ymateb i strategaeth Datblygu Economaidd y Cynulliad Cenedlaethol a chynorthwyo'r mudiad i baratoi fframwaith strategaeth datblygu economaidd o'i eiddo ei hun. Bu'n cydweithio'n agos iawn â phwyllgor datblygu economaidd AWEMA.

DIWYLLIANT A CHWARAEON

69. Rhoddwyd grantiau i nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Er enghraifft, dyfarnwyd grant i Glwb Pêl-droed 'Somali Dragons' i sefydlu tîm pêl-droed plant iau yng Nghaerdydd.

TAI

70. MAE'R CYNULLIAD WEDI DOSBARTHU'R ADRODDIAD "O'R CYRION I'R CANOL" ("FROM THE MARGINS TO THE CENTRE") GAN MUTALE NYONI YN HELAETH. ROEDD YR ADRODDIAD YN ARGYMELL Y DYLLID YMGORFFORI STRATEGAETH DAI GENEDLAETHOL POBL DDUON A LLEIAFRIFOEDD ETHNIG YN Y STRATEGAETH DAI GENEDLAETHOL. MAE'R CYNULLIAD YN MYND AR ÔL YR HOLL ARGYMHELLION YN YR ADRODDIAD. CYNHALIWYD CYNHADLEDD LWYDDIANNUS AR ANGHENION TAI POBL DDUON A LLEIAFRIFOEDD ETHNIG, A DREFNWDYD AR Y CYD Â'R COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL, YM MIS HYDREF 2000.

Rheoliadau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

71. Mae'r Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol, drwy reoliad, i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ddarparu gwybodaeth i denantiaid ar ffurf sy'n addas ar gyfer y rhai sy'n cael anawsterau â deunydd ysgrifenedig. Adlewyrchir hyn yn arweiniad a siarter y Cynulliad ynghylch trosglwyddo'r stoc dai, er enghraifft. Bwriedir cyhoeddi'r siarter mewn print bras a bydd yn cael ei ddarparu ar dâp sain hefyd.

Cartrefu Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

72. Bydd y Cynulliad yn edrych ar gyhoeddi arweiniad ac enghreifftiau o arferion da o ran cartrefu ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn 2001.

Polisi Tai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig

73. Yn fuan bydd y Cynulliad yn ymgynghori ynghylch cyflwyno Strategaeth Dai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru, a fydd yn ymdrin â'r materion allweddol fel cynyddu gallu, cyfle teg i gael tai ac ymdrin ag aflonyddu hiliol.

74. Penodwyd y cydlynnydd prosiect ar gyfer y Prosiect Tai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn ddiweddar – ariennir y swydd gan y Cynulliad. Bydd y prosiect yn ystyried dichonoldeb sefydlu mudiad tai dan arweiniad pobl dduon, hybu arferion da wrth ddarparu gwasanaethau tai i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, cynyddu ymwybyddiaeth ac ennyn diddordeb grwpiau perthnasol a hwyluso mwy o gynrychiolaeth o blith lleiafrifoedd mewn mudiadau tai.

CEFN GWLAD

75. Cynllun grant Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw Cymru Amgylcheddol sy'n rhoi arian i grwpiau gwirfoddol a chymunedol tuag at brosiectau amgylcheddol ymarferol. Mae'r mudiadau a dderbyniodd arian grant Cymru Amgylcheddol yn ystod 2000-2001 yn cynnwys y Black Environment Network. Dyfarnwyd cymorth ariannol iddynt ariannu Swyddog Datblygu, a'i nod fydd hybu cyfranogiad amgylcheddol gan grwpiau ethnig yng Nghymru.

Plant a Theuluoedd

76. Mae'r Tîm Lleoliadau ac Amddiffyn Plant yn ystyried anghenion penodol plant duon a lleiafrifoedd ethnig ar hyn o bryd o ran trefniadau amddiffyn plant. Estynnwyd gwahoddiad i'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i gyflwyno eu sylwadau.

Rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf

- Mae'r rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf yn ceisio gwella gwasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd. Mae cylchlythyr 4/2001 (a gyhoeddwyd ar 16 Chwefror) yn nodi 11 o amcanion allweddol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant yng Nghymru. Mae Amcan 6 yn ymdrin â gwasanaethau i blant anabl:

“Sicrhau bod plant ag anghenion cymdeithasol penodol sy’n deillio o anabledd neu gyflwr iechyd yn byw mewn teulu neu leoliad arall addas yn y gymuned lle mae eu hanghenion a aseswyd yn cael eu diwallu a’u hadolygu’n ddigonol.”

- Cyflwynwyd is-amcanion ychwanegol fel rhan o Amcan 6 i adlewyrchu pwysigrwydd y gwasanaethau hyn. Mae’n ofynnol i awdurdodau lleol nodi, yn eu Cynlluniau Gweithredu Rhoi Plant yn Gyntaf ar gyfer 2001-02, pa gamau gweithredu y maent yn bwriadu eu cyflwyno i gynyddu’r ddarpariaeth gwasanaethau cefnogi teuluoedd (gan gynnwys seibiant tymor byr) yn cynnwys:

Integreiddio plant anabl i wasanaethau hamdden a thu allan i’r ysgol yn well;

Gwella gwybodaeth at ddibenion cynllunio;

Darparu gwell gwybodaeth i rieni, a

Cynyddu nifer y gweithwyr allweddol sydd ar gael, a mesurau eraill i wella cydlynu.

77. Mae nifer o brosiectau eraill yn digwydd hefyd, megis:

Prosiect Mentora Purl – bydd diffyg hunan-barch neu ymddygiad amhriodol ymhlith disgyblion lleiafrifoedd ethnig sy’n peri pryder yn cael ei fentora gan bobl sy’n cynrychioli esiamplau cadarnhaol yn y gymuned ethnig.

Prosiect Cymuned Duon y Caribî – bydd y prosiect yn nodi disgyblion o gymuned Duon y Caribî sydd mewn perygl o dangyflawni neu gael eu gwahardd, ac yn darparu cefnogaeth a mentora mewn ysgolion, gan gynorthwyo pob sefydliad i ddatblygu strategaethau i sicrhau cynhwysiant.

Baban Cymru (Casnewydd) – Adnoddau i’r rhieni i’w cyflenwi gan Ymwelwyr Iechyd i famau newydd yng Nghasnewydd yn ystyried anghenion lleiafrifoedd ethnig. Deunyddiau hyfforddiant i’w cyfieithu i ieithoedd ethnig.

Gweithiwr Cymdeithasol/Cydlynedd Sector Gwirfoddol – Mae’r bartneriaeth yn gobeithio penodi ymgeisydd du i’r swydd hon. Bydd yr un a benodir yn gyfrifol am reoli arbenigol, yn ogystal â chydlynu gwasanaethau yn ardal Butetown/Grangetown/Riverside.

Gofal Cydeithasol

78. Datblygwyd polisi sgrinio cyn-geni i atal trosglwyddo HIV/Aids o’r fam i’r babi gyda chymorth grŵp o weithwyr proffesiynol o bob sector, gyda Race Equality First yn cynrychioli pobl dduon. Rhoddwyd ystyriaeth benodol i anghenion merched duon a lleiafrifoedd ethnig yn ystod beichiogrwydd a rhoi genedigaeth.

79. Cymorth Grant Adran 64: Mae’r Cynulliad yn darparu cyllid craidd i nifer o fudiadau gwirfoddol sy’n gweithio’n y sector gofal cymdeithasol i bobl ag anableddau corfforol a/neu ar eu synhwyrau, anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl drwy’r cynllun grant adran 64. Bydd rownd grant newydd, tair blynedd, yn dechrau ym mis Ebrill 2001. Prif nod y cymorth grant yw galluogi mudiadau gwirfoddol i gynorthwyo’r Cynulliad i gyflawni ei amcanion ar gyfer

pobl ag anableddau, yn cynnwys ei amcanion o ran cyfle cyfartal i bobl ag anableddau;

80. Y Cynllun Taliadau Uniongyrchol: Mae'r defnydd o daliadau uniongyrchol, sy'n galluogi pobl ag anableddau i gael mwy o reolaeth dros eu gofal yn y gymuned i hybu annibyniaeth unigolion, yn cynyddu yng Nghymru. Daeth Rheoliad y Cynulliad yn ymestyn y cynllun i'r rhai dros 65 oed i rym ym mis Gorffennaf 2000 a bydd rhagor o reoliadau yn cael eu cyflwyno yn ystod haf 2001 i ehangu'r cynllun ymhellach i gynnwys gofalwyr, plant anabl 16 a 17 oed a phobl â chyfrifoldeb rhieni dros blant anabl;

81. Ymgynghoriad Dall a Byddar: Yn ystod 2000, bu'r Cynulliad yn cymryd rhan mewn proses ymgynghori ar y cyd rhwng Cymru a Lloegr ynghylch gwasanaethau i bobl byddar a dall. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Medi 2000. Ar ôl ystyried yr argymhellion, mae'r Cynulliad wedi penderfynu y dylid cyhoeddi arweiniad, o dan Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, i Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Bydd yr arweiniad yn galw ar awdurdodau i nodi'r bobl ddall a byddar yn eu hardal, a sicrhau bod yr asesu a'r ddarpariaeth gwasanaethau yn addas ar gyfer pobl â nam ar ddau o'u synhwyrau. Caiff yr arweiniad hwn ei gyhoeddi yng Nghymru yn ystod haf 2001.

PERSONEL

82 MAE'R IS-ADRAN PERSONÉL YN IS-ADRAN ALLWEDDOL WRTH HYBU CYDRADDOLDEB YNG NGWAITH LLYWODRAETH CYMRU. YN AMLWG MAE GANDDI RÔL HANFODOL YN Y GWAITH O GYNYDDU AMRYWIAETH GWEISION SIFIL Y CYNULLIAD A SICRHAU BOD Y STAFF YN CAEL EU TRIN YN GYFARTAL A THEG. MAE PERSONÉL HEFYD YN GYFRIFOL AM REOLI RHAI O'R PRIF BROSIECTAU AMRYWIAETH, YN CYNWYS RECRIWTIO, DYRCHAFIADAU A'R SYSTEM RHEOLI PERFFORMIAD.

GWELL LLYWODRAETH

- Ymrwymadau i hybu amrywiaeth yng Nghynllun Gweithredu Rhoi Llywodraeth Well ar Waith, a gefnogir gan Swyddfa'r Cabinet ac a ariennir (£180k) gan y Gronfa Buddsoddi i Foderneiddio.
- Nifer o fentrau codi ymwybyddiaeth
- Noddwyd ymweliad â Bangladesh gan aelod o staff i gynorthwyo gyda rhaglen diwygio gweinyddol y Llywodraeth.
- Anerchiad Roger McKenzie mewn seminar staff ynghylch hiliaeth sefyliadol.

83. **RECRIWTIO A DETHOL**

- Cafodd y Ffair Recriwtio, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2000 gyda'r nod benodol o ddenu ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig, beth effaith gyda 16 o staff o leiafrifoedd ethnig yn cael eu recriwtio i'r Cynulliad.
- Mwyafrif y swyddi Uwch Weision Sifil yn cael eu hysbysebu yn allanol yn awr.

- Rydym wedi datblygu ein Strategaeth Gwaith Maes, gyda lleoliadau profiad gwaith (myfyrwyr ysgol Blwyddyn 10/12), lleoliadau diwydiannol (blwyddyn o hyd i fyfyrwyr Addysg Bellach) a secondiadau. Rydym yn targedu'r cynlluniau hyn i sicrhau amrywiaeth.
- Rydym yn parhau â'r cynllun Cymrodoriaeth Windsor sy'n cynnig profiad gwaith yn y Cynulliad i aelodau'r gymuned lleiafrifoedd ethnig.
- Rydym wedi dechrau gwneud cynlluniau ar gyfer recriwtio yn y dyfodol, a fydd wedi eu gwirio o ran cydraddoldeb ac a fydd yn cynnwys targedau amrywiaeth (lleiafrifoedd ethnig, Y Fargen Newydd, a phobl anabl).
- Rydym wedi llunio cynlluniau fel bo'r holl ddulliau recriwtio a dethol yn fewnol yn cael eu monitro o ran yr elfen cydraddoldeb.
- Rydym wedi sicrhau bod ein trefniadau ar gyfer byrddau dyrchafu wedi'u gwirio o ran cydraddoldeb, a bydd hyn yn weithredol yn 2001.

84. *Perfformiad a Datblygiad*

- Adolygwyd y cwrs cynefino ym mis Ionawr, a chynhwyswyd elfen ychwanegol yn ymwneud â pholisïau sydd o blaid y teulu.
- Mae TSW wedi hyfforddi'r holl diwtoriaid ynghylch materion Amrywiaeth, a bydd Amrywiaeth yn cael ei gynnwys yn y cyrsiau hyfforddiant yn y dyfodol.
- Dyfeisiwyd hyfforddiant "Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Rheolwyr", a bydd yn dechrau gyda'r gweision sifil ym mis Mai.
- Cynlluniau ar y gweill i sicrhau bod yr holl gyrsiau hyfforddiant mewnol wedi'u gwirio o ran cydraddoldeb.
- Dyfarnwyd contract i'r CSC gynnal Rhaglen Datblygiad Rheolwyr ar gyfer grwpiau wedi'u tangynrychioli.
- Mae'r Tîm Cyfle Cyfartal wedi parhau i weinyddu'r Consortiwm Meithrin a'i gyllid cysylltiedig.
- Mae'r Swyddog Cyfle Cyfartal wedi parhau i gyflawni rôl ymgynghorydd mewn achosion o aflonyddu.
- Lansiodd adolygiad o'r system gweithio hyblyg "Dewisiadau Gwaith" ar 29 Mawrth 2001. Mae'n darparu patrymau gweithio hyblyg fel y gall staff gyfuno gweithio gyda'u cyfrifoldebau a'u hymrwymadau eraill. Mae'n cynnwys ystytho'r amser craidd, er mwyn caniatáu rhagor o hyblygrwydd amser cinio ac ar ddiwedd y diwrnod; polisi hysbysebu swyddi mewnol â'r bwriad o annog gweithio'n rhan amser a rhannu swyddi; cynllun seibiant gyrfaol newydd, sydd ar gael am amrywiaeth ehangach o resymau; a chyfnod o hyd at 3 mis o'r gwaith, yn ddi-dâl, mewn unrhyw gyfnod 12 mis am unrhyw reswm bron.

- Ymdriniwyd â gwahaniaethu ar sail oedran drwy gyflwyno oedran ymddeol hyblyg rhwng 60 a 65 oed i'r holl staff sy'n rhan o'r cynllun Gweision Sifil.
- Arolwg Cyfle Cyfartal 1999 wedi'i fwydo i mewn i'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2000/1.
- Gwell trefniadau ar gyfer cyfnod mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu wedi'i fwydo i mewn i ddyfarniad cyflog 2000.

Atodiad A3: Proffil Aeddfedrwydd yr Archwiliad Cydraddoldeb

ARCHWILIAD CYDRADDOLDEB Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL – PROFFIL AEDDFEDRWYDD 1999-2000

fyg 1	Ymwybyddiaeth 2	Deall 3	Cymhwysedd 4	Rhagoriaeth 5
l amlwg rhwng l a nodau	Cyfeiriad Cyffredinol at Gyfle Cyfartal mewn Cynlluniau Is-adrannol	Cyfle Cyfartal yn cael ei grybwyll mewn Cynlluniau Is-adrannol.	Nodau strategol ar gyfer Cyfle Cyfartal yn cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau is-adrannol.	Buddion moesegol a busnes Cyfle Cyfartal yn hanfodol i strategaeth a chynlluniau is-adrannol.
h i gyfle systemau	Rhai swyddogaethau (e.e. Hyfforddiant arbennig) ar waith i gefnogi cyfle cyfartal	Polisiau a gweithdrefnau Is-adrannol yn ystyried cyfle cyfartal yn ystod y cam cynllunio.	Cyfle Cyfartal yn cael ei ystyried yn werth craidd wrth ddatblygu Polisiau a gweithdrefnau Is-adrannol.	Cyfle Cyfartal yn elfen hanfodol o bob system reoli, ac yn hybu diwylliant cyfle cyfartal.
h nac w canfod	Datgan cefnogaeth yn gyhoeddus, a rhai gweithgareddau i'w canfod.	Datgan cefnogaeth yn gyhoeddus, a gweithgareddau i'w canfod yn aml.	Uwch Reolwyr yn cyfathrebu'n gyson ynghylch Cyfle Cyfartal ac yn dangos cefnogaeth	Uwch Reolwyr yn cyfathrebu ynghylch Cyfle Cyfartal ac yn ei arddangos a'i hybu yn fewnol ac allanol
iant na l penodol ar /fartal. Dim h o'r angen am eu mewn	Cyfle Cyfartal yn ymddangos yn achlysurol ar agendâu cyfarfodydd rheolaeth. Monitro ad hoc neu rannol, ond heb ganolbwynt, heb fod yn gynhwysfawr a heb ei ddefnyddio i greu newid	Cyfle Cyfartal yn ymddangos ar y rhan fwyaf o agendâu cyfarfodydd rheolaeth Monitro cyson sy'n arwain at rai newidiadau, ond nid mewn ffordd systematig	Cyfle Cyfartal yn nodwedd reolaidd mewn cyfarfodydd	Cyfle Cyfartal yn nodwedd o bob cyfarfod
gyfathrebu ithdrefnau l. Dim lanol	Cydnabod yr angen am hyfforddiant a chyfarwyddyd mewn cydraddoldeb, ond dim darpariaeth benodol ar gyfer yr holl staff. Hyfforddiant ar gael i bersonel allweddol	Hyfforddiant cydraddoldeb ar gael i'r holl staff, ond heb ei hyrwyddo.	Yr holl brosesau a gweithdrefnau priodol yn cael eu monitro fel rhan o raglen dreiglo o safbwynt Cyfle Cyfartal	Monitro cynhwysfawr wedi'i ganolbwyntio ar gyfle cyfartal yn rhan hanfodol o'r broses adolygu a chynllunio. Ar waith.
	Ymagwedd ad hoc i gyfathrebu ac ymgynghori	Cyfarwyddyd ar gael ond heb ei ledaenu.	Hyfforddi a Datblygu Adrannol. Deunydd cyfarwyddyd ar gael, lledaenu ad hoc	Hyfforddiant penodol a gorfodol mewn Cyfle Cyfartal yn cael ei werthuso ac yn elfen hanfodol o ddarpariaeth hyfforddiant adrannol. Deunydd cyfarwyddyd ar gael ac yn cael ei ledaenu'n rheolaidd.
		Cyfathrebu materion sy'n ymwneud â Chyfle Cyfartal mewn ffordd sy'n diwallu anghenion gwahanol gynulleidfaoedd. Ymgynghori rheolaidd â grwpiau cyfyngedig	System yn ei lle i annog cyfraniadau ac adborth. Ymgynghori rheolaidd ag ystod eang o grwpiau priodol	Systemau gwybodaeth ac adborth yn eu lle. Maent yn galluogi'r cyfranogiad a'r ymroddiad mwyaf. Ymgynghori rheolaidd ag ystod eang o grwpiau priodol o'r dechrau

ARCHWILIAD CYDRADDOLDEB Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL – PROFFIL AEDDFEDRWYDD 2000-2001

fyg 1	Ymwybyddiaeth 2	Deall 3	Cymhwysedd 4	Rhagoriaeth 5
l amlwg rhwng l a nodau	Cyfeiriad Cyffredinol at Gyfle Cyfartal mewn Cynlluniau Is-adrannol	Cyfle Cyfartal yn cael ei grybwyll mewn Cynlluniau Is-adrannol.	Nodau strategol ar gyfer Cyfle Cyfartal yn cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau is-adrannol.	Buddion moesegol a busnes Cyfle Cyfartal yn hanfodol i strategaeth a chynlluniau is-adrannol.
h i gyfle systemau	Rhai swyddogaethau (e.e. Hyfforddiant arbennig) ar waith i gefnogi cyfle cyfartal	Polisiau a gweithdrefnau Is-adrannol yn ystyried cyfle cyfartal yn ystod y cam cynllunio.	Cyfle Cyfartal yn cael ei ystyried yn werth craidd wrth ddatblygu Polisiau a gweithdrefnau Is-adrannol.	Cyfle Cyfartal yn elfen hanfodol o bob system reoli, ac yn hybu diwylliant cyfle cyfartal.

eth nac i'w canfod	Datgan cefnogaeth yn gyhoeddus, a rhai gweithgareddau i'w canfod. Cyfle Cyfartal yn ymddangos yn achlysurol ar agendâu cyfarfodydd rheolaeth. Monitro ad hoc neu rannol, ond heb ganolbwynt, heb fod yn gynhwysfawr a heb ei ddefnyddio i greu newid	Datgan cefnogaeth yn gyhoeddus, a gweithgareddau i'w canfod yn aml. Cyfle Cyfartal yn ymddangos ar y rhan fwyaf o agendâu cyfarfodydd rheolaeth Monitro cyson sy'n arwain at rai newidiadau, ond nid mewn ffordd systematig	Uwch Reolwyr yn cyfathrebu'n gyson ynghylch Cyfle Cyfartal ac yn dangos cefnogaeth Cyfle Cyfartal yn nodwedd reolaidd mewn cyfarfodydd Yr holl brosesau a gweithdrefnau priodol yn cael eu monitro fel rhan o raglen dreigl o safbwynt Cyfle Cyfartal	Uwch Reolwyr yn cyfathrebu ynghylch Cyfle Cyfartal ac yn ei arddangos a'i hybu yn fewnol ac allanol Cyfle Cyfartal yn nodwedd o bob cyfarfod Monitro cynhwysfawr wedi'i ganolbwyntio ar gyfle cyfartal yn rhan hanfodol o'r broses adolygu a chynllunio. Ar waith.
ant na l penodol ar /fartal. Dim h o'r angen am eu mewn	Cydnabod yr angen am hyfforddiant a chyfarwyddyd mewn cydraddoldeb, ond dim darpariaeth benodol ar gyfer yr holl staff. Hyfforddiant ar gael i bersonél allweddol	Hyfforddiant cydraddoldeb ar gael i'r holl staff, ond heb ei hyrwyddo. Cyfarwyddyd ar gael ond heb ei ledaenu.	Hyfforddiant cydraddoldeb yn cael ei hyrwyddo a'i gynnwys fel rhan o'r cynllun Hyfforddi a Datblygu Adrannol. Deunydd cyfarwyddyd ar gael, lledaenu ad hoc	Hyfforddiant penodol a gorfodol mewn Cyfle Cyfartal yn cael ei werthuso ac yn elfen hanfodol o ddarpariaeth hyfforddiant adrannol. Deunydd cyfarwyddyd ar gael ac yn cael ei ledaenu'n rheolaidd.
cyfathrebu ithdrefnau l. Dim lanol	Ymagwedd ad hoc i gyfathrebu ac ymgynghori	Cyfathrebu materion sy'n ymwneud â Chyfle Cyfartal mewn ffordd sy'n diwallu anghenion gwahanol gynulleidfaoedd. Ymgynghori rheolaidd â grwpiau cyfyngedig	System yn ei lle i annog cyfraniadau ac adborth. Ymgynghori rheolaidd ag ystod eang o grwpiau priodol	Systemau gwybodaeth ac adborth yn eu lle. Maent yn galluogi'r cyfraniad a'r ymroddiad mwyaf. Ymgynghori rheolaidd ag ystod eang o grwpiau priodol o'r dechrau

ATODIAD B: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

Sefydlu'r Pwyllgor

Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn nodi y dylid sefydlu Pwyllgor Cyfle Cyfartal i archwilio trefniadau'r Cynulliad ar gyfer hybu, wrth arfer ei swyddogaethau a chynnal ei fusnes, egwyddor cyfle cyfartal ar gyfer pawb. Mae Adran 48 a 120 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ei gwneud yn ddyletswydd ar y Cynulliad i ehangu'r egwyddor o sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

Nodir cylch gwaith y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 14 (Atodiad B). Ceir rhestr o aelodau'r Pwyllgor yn Atodiad C. Nodir crynodeb o agendâu'r Pwyllgor ar gyfer 2000-01 yn Atodiad D.

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr mewn sicrhau bod deialog â mudiadau sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifol a grwpiau o dan anfantais yn digwydd ar bob lefel yn y Cynulliad. Er mwyn cynorthwyo i gyflawni hyn, cytunodd yr aelodau yn y cyfarfod cyntaf y dylai'r comisiynau a sefydlwyd i ymdrin â materion cydraddoldeb yng Nghymru – y Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ac Anabledd Cymru a'r Comisiwn Hawliau Anabledd – dderbyn gwahoddiad agored i fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor fel ymgynghorwyr, yn unol â Rheol Sefydlog 14.4.

Mae Rheol Sefydlog 14 yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor fod yn ymwybodol o'r angen i'r Cynulliad osgoi gwahaniaethu ar sail rhyw, hil neu anabledd. Tra'n cynnal y ffocws yma, dylai'r Pwyllgor ystyried ffynonellau eraill sy'n arwain at wahaniaethu a dieithrwyd cymdeithasol, fel oedran, credoau crefyddol a thuedd rhywiol.

Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu dull aml-ochrog o arolygu'r modd y mae'r Cynulliad yn cyflawni ei ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal i bawb. Yn ychwanegol at y broses o lunio adroddiad blynyddol, mae hyn wedi cynnwys codi materion o ddiddordeb neu bryderon gyda'r Gweinidog perthnasol, yr Ysgrifennydd Parhaol neu'r is-adran polisi perthnasol; comisiynu adroddiadau ar faterion penodol; derbyn adroddiadau briffio a chyflwyniadau gan fudiadau y tu allan i'r Cynulliad a chynnal deialog glòs gyda'r comisiynau cydraddoldeb. Mae'r Is-adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus hefyd yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor ac yn darparu cyngor a chefnogaeth ac yn ymateb i'r materion a godir.

Crynodeb o'i weithgareddau yn ystod y flwyddyn a aeth heibio

Adroddiad MacPherson ar lofruddiaeth Stephen Lawrence

Comisiynodd y Pwyllgor adroddiad gan swyddogion i sut y gallai'r Cynulliad ymdrin ag argymhellion addysg Adroddiad yr Ymchwiliad i farwolaeth Stephen Lawrence. Ffurfiodd y Pwyllgor grŵp llywio i hwyluso'r gwaith ynghyd â gweithgor a oedd yn cynnwys swyddogion addysg a chynrychiolaeth o ACCAC (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru), Estyn, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Race Equality First, Heddlu De Cymru a Chymdeithas

Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA). Buont yn ystyried yn ddwys sut i hwyluso'r gwaith o gyfoethogi'r cwricwlwm cyfan i hybu dealltwriaeth o amrywiaeth ddiwylliannol. Mae'r adroddiad hefyd yn ymdrin â strategaethau ysgol ar gyfer taclo hiliaeth, a systemau arolygu i sicrhau bod y strategaethau yn cael eu gweithredu. Roedd y broses hon yn gryn sialens ac roedd angen llawer o drafod er mwyn cyrraedd y penderfyniad consensws terfynol. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro'r ffordd y rhoddir argymhellion yr adroddiad ar waith dros y flwyddyn nesaf.

Penodiadau Cyhoeddus

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y prosesau gwneud penodiadau cyhoeddus yn ddwys er mwyn sicrhau cynrychiolaeth ehangach o'r gymuned gyfan. Nodwyd yn arbennig mai cymharol ychydig o bobl o gefndiroedd ethnig, pobl ag anabledd a merched sydd wedi eu penodi i swyddi cyhoeddus. Er mwyn helpu i ymdrin â'r pryderon hyn, cafodd Wendy Morgan ei chomisiynu gan y Cadeirydd i baratoi adroddiad i roi cyngor ar raglen weithredu gyda'r nod o sicrhau ceisiadau ar gyfer penodiadau cyhoeddus sy'n cynrychioli poblogaeth Cymru, a fyddai'n galluogi gwneud penodiadau cyhoeddus fel bod cyrff cyhoeddus yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn well. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys amrediad eang o argymhellion ar gyfer ehangu'r gronfa o bobl sy'n ymgeisio ac yn cael eu penodi i swyddi cyhoeddus.

Hefyd bu'r Pwyllgor yn ystyried mater tâl cydnabyddiaeth i'r rhai sy'n cael eu penodi i swyddi cyhoeddus. Croesawodd y Pwyllgor bapur ymgynghorol y Llywodraeth ar dâl cydnabyddiaeth i'r rhai a benodwyd i swyddi cyhoeddus, ac roedd o blaid cynnig tâl cydnabyddiaeth i holl gadeiryddion y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn unol â'u cyfrifoldebau a'u llwyth gwaith yn y swyddi gwahanol.

Cyflog Cyfartal

Roedd adroddiad Tasglu'r Comisiwn Cyfle Cyfartal ar Gyflog Cyfartal, *Cyflog Teg* a gyhoeddwydd ddechrau 2001 yn tynnu sylw at y ffaith fod y bwlc cyflog rhwng dynion a merched wedi parhau ar lefel sy'n annerbyniol o uchel. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ymdrin â'r mater hwn yng Nghymru, gan ddechrau gyda'r Cynulliad. Roedd yn bleser nodi fod y Cynulliad wedi ei gymeradwyo yn yr adroddiad am iddo gynnal adolygiad cyflog cyfartal ymhlith ei staff. Mae'r Pwyllgor wedi dechrau trafodaethau gyda'r Comisiwn Cyfle Cyfartal a TUC Cymru ynghylch sut i ymateb i'r adroddiad yng Nghymru ac mae'n bwriadu hwyluso'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu ar y cyd.

Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio)

Daeth y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 i rym ym mis Ebrill 2001, gan osod dyletswydd gyffredinol ar yr holl awdurdodau cyhoeddus i ddileu gwahaniaethu ar sail hil. Mae hefyd yn rhoi'r grym i'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ddrafftio codau ymarfer ar gyfer unrhyw un a nodir yn y Ddeddf ac, yn dilyn ymgynghori a derbyn cymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Cartref, i'r codau hynny gael eu cyflwyno gerbron y Senedd a'u gwneud yn rhai y gall y Comisiwn eu gorfodi.

Nododd y Pwyllgor y bydd y dyletswyddau statudol ar gyfrif cyhoeddus yn sgil yn Ddeddf yn cael effaith sylweddol ar hybu cydraddoldeb hiliol. Felly mae'r Pwyllgor yn hwyluso

trafodaethau ynghylch gweithredu'r Ddeddf a bydd yn cymryd diddordeb gweithredol yn natblygiad codau ymddygiad. Mae hefyd yn archwilio'r opsiynau o ran integreiddio'r gwaith a wna'r Cynulliad mewn ymateb i'r Ddeddf gyda blaenoriaethau cydraddoldeb eraill fel bo'r gwaith a wneir i ymdrin â chydaddoldeb hiliol o ganlyniad i'r dyletswyddau sy'n dod yn sgil y Ddeddf yn cael ei integreiddio'n llawn gyda'r gwaith o ymdrin â materion cydraddoldeb yn gyffredinol.

Cydymffurfiaeth contractwyr o ran cydraddoldeb

Bu'r Pwyllgor yn ystyried i ba raddau y gallai'r Cynulliad sicrhau bod y rhai y mae'n eu contractio i ddarparu gwasanaethau yn bodloni safonau cydraddoldeb yn eu polisïau a'u harferion. Fe'i hysbyswyd nad oedd y Cynulliad yn asiantaeth gorfodi cydraddoldeb felly nid oedd ganddo'r pŵer i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cydraddoldeb ond ei fod mewn sefyllfa gref i ddylanwadu ar y rhai y mae'n cynnal trafodion busnes â hwy. Mae Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn dyletswydd ar y Cynulliad i hybu cydraddoldeb felly byddai ystyriaethau o'r fath yn berthnasol wrth ddewis tendrau ar gyfer contractau. Mae'r Pwyllgor yn parhau i annog datblygu polisïau caffael sy'n adlewyrchu dyletswydd y Cynulliad i hybu cydraddoldeb.

Adroddiad McKenzie

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad gan Roger McKenzie, *Codi Pob Llais: Adroddiad a Chynllun Gweithredu i ymdrin â hiliaeth sefydliadol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru* fel ffordd ddefnyddiol o fwrw ymlaen i ymdrin â hiliaeth sefydliadol yn y Cynulliad. Bu'n annog y Cynulliad a'r pleidiau gwleidyddol yng Nghymru i weithredu argymhellion yr adroddiad. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro'r ffordd y rhoddir yr adroddiad ar waith a bydd yn ystyried cynllun gweithredu arfaethedig y Cynulliad yn ystod ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2001.

Llywodraeth Leol

Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli fod gan lywodraeth leol rôl hanfodol wrth sicrhau cyfle cyfartal i bawb, fel darparwr llawer o wasanaethau cyhoeddus hanfodol ac fel un o'r prif gyflogwyr. Felly mae'r Pwyllgor yn awyddus i weld bod llywodraeth leol yn hybu cyfle cyfartal ac yn sicrhau bod cynghorau'n derbyn y gefnogaeth angenrheidiol er mwyn cyflawni hyn. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Syniad ynghylch yr her sy'n wynebu llywodraeth leol a'r rhaglenni i ymdrin â hi, yn cynnwys yr *Equalities Toolkit*, y Safon Cydraddoldeb Generig, Siarter y Cynghorwyr yn 2000, Gwerth Gorau mewn Llywodraeth Leol ac Arolygon Cydraddoldeb Llywodraeth leol. Bydd y Pwyllgor yn parhau i gwrdd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i hwyluso'r gwaith hwn.

Cyflwyniadau gan fudiadau sy'n ymwneud â chyfle cyfartal

Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am faterion cydraddoldeb cyfredol a darparu cyngor i'r Cynulliad am bryderon y gymuned, derbyniodd y Pwyllgor nifer o gyflwyniadau gan fudiadau â diddordeb mewn hybu cydraddoldeb. Fel rheol, ar ôl derbyn cyflwyniadau o'r fath, byddai'r mater yn cael ei gyfeirio at sylw'r asiantaeth sy'n gyfrifol amdano neu fe

fyddai'r Pwyllgor yn ystyried y mater ymhellach ac yn gweithredu. Cafwyd cyflwyniadau gan Is-adran Adnoddau Dynol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru (WWNC), Stonewall (grŵp ymgyrchu cenedlaethol sy'n gweithio dros gydraddoldeb cyfreithiol a chyfiawnder cymdeithasol i lesbiaid, dynion hoyw a phobl deurywiol), Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Cymru dros y Dall, SENSE Cymru, Chwarae Teg, Anabledd Cymru, a Phwyllgor Merched Cyngres yr Undebau Llafur.

Cyrrff cyhoeddus sy'n gweithio ym maes hyrwyddo cyfle cyfartal

Y Comisiwn Cyfle Cyfartal

Yn unol â Rheol Sefydlog 6.6, bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cyfle Cyfartal ar 14 Chwefror 2001.

Roedd yr adroddiad yn ymdrin â chwe thema ac roedd pob un yn ystyried y sefyllfa gyfredol, achosion cyfreithiol yn gysylltiedig â'r thema a datblygiadau i'r dyfodol. Y themâu oedd:

- cyflog cyfartal;
- cydbwysedd rhwng gwaith/bywyd;
- stereoteipio rolau merched a dynion;
- merched mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol;
- y fframwaith cyfreithiol ar gyfer y dyfodol, a
- gwneud cydraddoldeb yn destun prif ffrwdd ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol

Yn unol â Rheol Sefydlog 6.6, bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ar 22 Tachwedd 2000.

Y prif faterion a nodwyd yn yr adroddiad oedd y Mesur Cysylltiadau Hiliol (Diwygio), datblygu'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998, perthynas y Comisiwn â'r Pwyllgor a'r gwaith yn deillio o adroddiad Stephen Lawrence. Ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw gwelwyd cynnydd o 40% mewn digwyddiadau hiliol cydnabyddedig a chynnydd o 120% yn yr adroddiadau am ddigwyddiadau wrth yr heddlu. Bellach mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru yn cydweithio â'r Comisiwn a gwnaed gwaith sylweddol gyda'r Awdurdodau Iechyd, gyda threfniadau monitro trwyadl yn eu lle yn awr. Nododd y Comisiwn y daethpwyd ar draws rhai gwendidau ar lefel llywodraeth leol ond y gobaith oedd y gellid ymdrin â'r rhain drwy'r Sialens Arweinyddiaeth.

Y Comisiwn Hawliau Anabledd

Dechreuodd y Comisiwn Hawliau Anabledd ar ei waith ar 25 Ebrill 2000 ac nid yw wedi llunio adroddiad blynyddol hyd yma.

Rhagolwg

Mae'r Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar gynorthwyo'r Cynulliad a chyrrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i weithio i sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb drwy sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb yn ystyriaeth prif ffrwd drwy'r Cynulliad. Er mwyn hwyluso a hyrwyddo hyn, bydd y Pwyllgor yn parhau i fod yn fan lle y ceir deialog gyhoeddus rhwng Aelodau'r Cynulliad, Cabinet y Cynulliad a'r comisiynau a'r grwpiau cydraddoldeb sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb. Trwy'r deialog yma, bydd y Pwyllgor yn cadw'r sylw ar oblygiadau cydraddoldeb y Cynulliad, yn tynnu sylw at anghenion y grwpiau yn y gymuned ac yn argymhell camau gweithredu er mwyn sicrhau newidiadau.

Yn ogystal, bydd y Pwyllgor yn hwyluso gwaith parhaus yn y meysydd a ganlyn:

Cyflog Cyfartal

Mae'r Pwyllgor wedi mynegi ei bryder ynghylch arafwch y cynnydd wrth ymdrin â'r anghydbwysedd cyflog rhwng y rhywiau ym Mhrydain a nodwyd gan Dasglu Cyflog Cyfartal y Comisiwn Cyfle Cyfartal. Felly mae wedi mynd ati i hwyluso'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i argymhellion y Tasglu a sicrhau bod materion cyflog cyfartal yn cael sylw yn y Cynulliad a'r chyrrff cyhoeddus a noddir ganddo.

Adroddiad McKenzie

Mae Adroddiad McKenzie yn nodi'r arferion gorau cyfredol o ran recriwtio, dewis a materion personél eraill ac mae'n nodi ffyrdd eraill o weithredu i ymdrin â hiliaeth sefydliadol yn y Cynulliad. Mae'r adroddiad wedi ei dderbyn yn gyffredinol ond bydd angen gwaith sylweddol yn y tymor canolig er mwyn ei weithredu. Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi sefydlu gweithgor i ddatblygu cynllun gweithredu i hwyluso hyn. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro hyn, a darparu cyngor fel bo'n briodol ar ymateb y Cynulliad i argymhellion Adroddiad McKenzie.

Polisi Caffael

Mae'n ddyletswydd ar i'r Cynulliad sicrhau bod y rhai sy'n cael eu contractio i ddarparu gwasanaethau er mwyn cyflawni ei swyddogaethau yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n hybu cyfle cyfartal. Hefyd mae ganddo bŵer sylweddol yn y farchnad yng Nghymru fel un o'r prif ddefnyddwyr nwyddau a gwasanaethau. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod y Cynulliad yn cyflawni'r ddyletswydd hon ac yn defnyddio'r pŵer hwn i annog gweithredu arferion sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal. Felly bydd yn parhau i fonitro datblygiad polisiau caffael.

Gweithredu'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio)

Bydd y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) yn effeithio'n sylweddol ar hybu egwyddorion cydraddoldeb drwy osod dyletswyddau cyffredinol a phenodol ar gyrrff cyhoeddus i weithio er mwyn goresgyn gwahaniaethu ar sail hil. Fel a nodwyd uchod, bydd rôl i'r Pwyllgor wrth roi'r ddeddfwriaeth hon ar waith drwy fonitro, cynnig cyngor a

chynnal deialog gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a gwêl gweithredu'r Ddeddf fel cyfle i hybu ac ehangu cyfle cyfartal i bawb.

**Pwyllgor Cyfle Cyfartal
Mehfin 2000**

ATODIAD B1: Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal – Y Cylch Gwaith

Detholiad o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

Adran 48

(1) Bydd y Cynulliad yn gwneud trefniadau priodol gyda'r bwriad o sicrhau fod ei fusnes yn cael ei reoli gyda sylw dyladwy i'r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb.

Adran 120

(1) Bydd y Cynulliad yn gwneud trefniadau priodol gyda'r bwriad o sicrhau fod ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni gyda sylw dyladwy i'r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb.

(2) Ar ôl pob blwyddyn ariannol bydd y Cynulliad yn cyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys:

- a) Datganiad o'r trefniadau a wnaed yn unol ag is-adran (1) a oedd mewn grym yn ystod y flwyddyn ariannol honno; a
- b) Datganiad ynghylch pa mor effeithiol y bu'r trefniadau hynny mewn hyrwyddo cyfle cyfartal.

RHEOL SEFYDLOG 14 - Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

Teitl a Chylch Gwaith

14.1 Bydd Pwyllgor Cyfle Cyfartal, a fydd yn archwilio trefniadau'r Cynulliad ar gyfer hybu, wrth arfer ei swyddogaethau a chynnal ei fusnes, egwyddor cyfle cyfartal ar gyfer pawb. Bydd y Pwyllgor hefyd yn rhoi sylw arbennig i'r angen i'r Cynulliad osgoi camwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ar sail hil, rhyw neu anabledd.

14.2 Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar y trefniadau hynny a'u heffeithiolrwydd. Bydd hefyd yn adolygu'r Adroddiadau Blynyddol a gyflwynir i'r Cynulliad gan gyrff cyhoeddus sy'n ymwneud â hybu cyfleoedd cyfartal ac yn adrodd ei gasgliadau am yr adroddiadau hynny i'r Cynulliad.

Aelodaeth

14.3 Bydd y Cynulliad yn ethol Ysgrifennydd Cynulliad i gadeirio'r Pwyllgor, ynghyd ag Aelodau eraill a etholir cyn belled ag y bo'n ymarferol i adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad a chan ystyried pa mor ddymunol y byddai i bob pwyllgor pwnc gael ei gynrychioli ar y Pwyllgor. Gall Aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor fod yn bresennol yn ei gyfarfodydd pan fyddant yn cael eu cynnal yn gyhoeddus. Cyn unrhyw gyfarfod, caiff y cyfryw Aelodau sydd â buddiannau etholaethol neu ranbarthol penodol i fynd ar eu trywydd mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor geisio caniatâd y Cadeirydd i wneud sylwadau i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw; ond ni chânt bleidleisio. Hefyd, caiff Aelodau ysgrifennu at y Cadeirydd a gofyn bod eu sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Cynulliad yn cael eu cyflwyno i'w hystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf; a bydd y Cadeirydd yn trefnu i'r cyfryw gyflwyno ddigwydd.

14.4 Heb ragfarnu paragraff 8.14, bydd y Pwyllgor, o bryd i'w gilydd, yn penodi'r cynghorwyr y bydd eu hangen arno er mwyn i sylwadau grwpiau lleiafrifol neu grwpiau dan anfantais allu cael eu cyflwyno iddo.

Adroddiadau

14.5 Yn ogystal â chyflwyno ei adroddiad blynyddol gall y Pwyllgor gyflwyno adroddiadau eraill i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd.

Atodiad B2: Aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal

Aelodau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal

Edwina Hart (Cadeirydd)	Llafur	Gŵyr
Lorraine Barrett	Llafur	De Caerdydd a Phenarth
Eleanor Burnham	Democrat Rhyddfrydol	Gogledd Cymru
Christine Gwyther Benfro	Llafur	Gorllewin Caerfyrddin a Sir

Richard Edwards	Llafur	Preseli Sir Benfro
Ann Jones	Llafur	Dyffryn Clwyd
Helen Mary Jones	Plaid Cymru	Llanelli
Janet Ryder	Plaid Cymru	Gogledd Cymru
Owen John Thomas	Plaid Cymru	Canol De Cymru
Jonathan Morgan	Ceidwadwr	Canol De Cymru
David Melding	Ceidwadwr	Canol De Cymru

Cadeiriwyd y Pwyllgor gan Jane Hutt (Llafur: Bro Morgannwg) rhwng 23 Mehefin 1999 a 4 Ebrill 2000

Bu Carwyn Jones (Llafur: Pen-y-bont ar Ogwr) yn aelod rhwng 23 Mehefin 1999 a 4 Ebrill 2000

Bu Christine Chapman (Llafur: Cwm Cynon) yn aelod rhwng 23 Mehefin 1999 a 9 Tachwedd 2000

Bu Kirsty Williams (Democrat Rhyddfrydol: Brycheiniog a Maesyfed) yn aelod rhwng 23 Mehefin 1999 a 9 Tachwedd 2000

Ymunodd Christine Humphries (Democrat Rhyddfrydol: Gogledd Cymru) â'r Pwyllgor ar 9 Tachwedd a gadawodd ei swydd yn y Cynulliad ar 31 Mawrth.

Atodiad B3: Cyfarfodydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

13 Ebrill 2000 – EOC-03-00

Adroddiad y Cadeirydd

Yr Archwiliad i Gydraddoldeb a Blaenraglen Waith Ddiwygiedig y Pwyllgor

Cyflwyniad Comisiwn Hawliau'r Anabl

Adroddiad Blynyddol Cyntaf y Pwyllgor

Penodiadau Cyhoeddus

Craffu ar Waith y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

25 Mai 2000 – EOC-04-00

Adroddiad y Cadeirydd

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor a Blaenraglen Waith ddrafft yr Uned Polisi

Cydraddoldeb

Penodiadau Cyhoeddus yn yr NHS yng Nghymru

Cyflwyniad – Stephen Redmond a Paul Hopkins, Is-adran Adnoddau Dynol yr NHS, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ymchwiliad Stephen Lawrence

Adeiladu Cymru Well Gyda'n Gilydd

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

29 Mehefin 2000 – EOC – 05-00

Adroddiad y Cadeirydd

Gwrando ar Fenywod

Cyflwyniad - Ruth Marks, Audrey Jones a Gabrielle Suff, Cynghair Cenedlaethol Menywod Cymru

Ymchwiliad Stephen Lawrence

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Gwahaniaethu a Rhywioldeb

Cyflwyniad - Angela Mason, Cyfarwyddwr Gweithredol, Stonewall

Cydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)

Cyflwyniad – Y Cyngorydd Rhiannon Hughes, Cyngor Sir Ddinbych a Paul Griffiths, Pennaeth Materion Corfforaethol, WLGA

11 Gorffennaf 2000 - EOC-06-00

Adroddiad y Cadeirydd

Ymchwiliad Stephen Lawrence

Strategaeth Adnoddau Dynol yr NHS yng Nghymru

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

25 Hydref 2000 – EOC-07-00

Penodiadau Cyhoeddus

Cyflwyniadau: Y Fonesig Rennie Fritchie, Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus a Wendy Morgan, Uwch Swyddog Personél, BBC Cymru

Adroddiad y Cadeirydd

Ymchwiliad Stephen Lawrence

Iaith a Chyfle Cyfartal

Cyflwyniad: Rhodri Williams, Cadeirydd, a Rhys Dafis, Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Cod Ymarfer Gwirfoddol ar Rywioldeb

Cyflwyniad - Angela Mason, Cyfarwyddwr Gweithredol, Stonewall

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

22 Tachwedd 2000 – EOC-08-00

Adroddiad y Cadeirydd

Ymchwiliad Stephen Lawrence

Gwaith Comisiwn Cyfle Cyfartal Cymru mewn sefyllfa ddatganoledig

Cyflwyniad: Julie Mellor, Cadeirydd, y Comisiwn Cyfle Cyfartal

Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol

Cefnogi Pobl Ddall a Byddar yng Nghymru – Herio Eithrio

Cyflwyniad: Vanessa Webb, Cyfarwyddwr, Cyngor Cymru i'r Deillion a John Micklewright, Rheolwr Cyffredinol, SENSE Cymru

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

17 Ionawr 2001 – EOC-01-01

Adroddiad y Cadeirydd

Ymchwiliad Stephen Lawrence

Y Mesur Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad)

Cyflwyniad: Dr Mashuq Ally, Pennaeth y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru

Cydymffurfio â Chontractau

Cyflwyniad: Winston Roddick, Y Cwnsler Cyffredinol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhaglen EQUAL: Cynllun Gweithredu Cymru

Cyflwyniad: Damien O'Brien, yr Is-adran Materion Ewropeaidd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Ruth Marks, Cyfarwyddwr, Chwarae Teg; a Howard John, Cyfarwyddwr, Anabledd Cymru

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

14 Chwefror 2001 – EOC-02-01

Adroddiad y Cadeirydd

Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cyfle Cyfartal

Ymchwiliad Stephen Lawrence

'Gwerth Gorau' mewn Llywodraeth Leol ac Archwiliad Cydraddoldeb Llywodraeth Leol Cymru

Cyflwyniad: Bethan Evans, Syniad, a Steve Thomas, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

12 Mawrth – EOC-03-01

Adroddiad y Cadeirydd

Materion yn ymwneud â Hil yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyflwyniad: Roger Mackenzie, TUC

Penodiadau Cyhoeddus – Tâl Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

Tâl Cyfartal yng Nghymru

Cyflwyniad: Felicity Williams, Sue Dye a Heledd Hayes, Pwyllgor Menywod TUC Cymru

Ymchwiliad Stephen Lawrence

Cyngor Cymru i'r Deillion: Y prosiect 'Young View'

Cyflwyniad: Aelodau'r grŵp

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

9 Mai 2001 – EOC-04-01

Adroddiad y Cadeirydd

Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

Gwaith Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru

Cyflwyniad: Susheela Lawrie, Cadeirydd, a Steve Bennett, Rheolwr Prosiect,

Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru

Ymchwiliad Stephen Lawrence

Cofnodion y cyfarfod blaenorol